Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# Hunanasesiad 2023/24

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Rhagarweiniad** | **3** |
| **2.** | **Ein dull hunanasesu ar gyfer 2023-24** | **4** |
| **3.** | **Crynodeb o'n hunanasesiad 2023-24** | **6** |
| **4.** | **Asesu yn erbyn ein themâu hunanasesu** | **7** |
| | Thema: Canlyniadau perfformiad | 7 |
| | Thema: Cynllunio Corfforaethol | 11 |
| | Thema: Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol | 18 |
| | Thema: Rheoli perfformiad | 22 |
| | Thema: Cynllunio ariannol | 27 |
| | Thema: Trefniadau Rheoli Risg | 32 |
| | Thema: Cynllunio'r Gweithlu | 36 |
| | Thema: Asedau | 41 |
| | Thema: Caffael | 51 |
| **ATODIAD 1:** | | **56** |
| | Ffynonellau allweddol o dystiolaeth | 56 |
| **ATODIAD 2:** | | **58** |
| | Rhestr Termau | 58 |
| | Nodiadau | 65 |

# 1. Rhagarweiniad

Mae hunanasesu yn bwysig i unrhyw sefydliad ac yn ffordd o adolygu'r sefyllfa bresennol yn feirniadol ac yn onest er mwyn gwneud penderfyniadau ar sut i sicrhau gwelliant i'r dyfodol. Mae deddfwriaeth newydd yng Nghymru (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau barhau i adolygu eu perfformiad drwy hunanasesu. Ar ei lefel symlaf, mae'n sicrhau ein bod yn gofyn yn flynyddol:

- Pa mor dda ydym yn gwneud?
- Sut ydym ni'n gwybod hyn?
- Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ein canfyddiadau o'n hadolygiad hunanasesu ac yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd mae'n ystyried a ydym yn:

- arfer ein swyddogaethau'n effeithiol;
- defnyddio ein hadnoddau mewn modd economaidd, yn effeithlon ac effeithiol; gan ddefnyddio llywodraethu sy'n effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

## 2. Ein dull hunanasesu ar gyfer 2023-24

Mae hunanasesu eisoes yn rhan annatod o'n fframwaith rheoli perfformiad sy'n ein helpu i nodi meysydd lle mae angen cymorth i wella fwyaf er mwyn gallu cyflawni ein blaenoriaethau, wrth barhau i fod yn hyblyg ac arloesol er mwyn ymateb i'r amgylchedd newidiol yr ydym yn gweithredu ynddo.

Mae hunanasesu fel arf gwella wedi'i wreiddio ar draws y Cyngor – o hunanasesu ar lefel gwasanaeth unigol, i lefelau trawsbynciol a thematig, fel pan fyddwn yn asesu ein perfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor neu effeithiolrwydd ein fframwaith llywodraethu.

Wrth ddatblygu ein hymagwedd at y gofyniad Hunanasesu newydd fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth, rydym wedi defnyddio Canllawiau Statudol y Ddeddf. O'r herwydd, mae wedi'i strwythuro o amgylch y themâu llywodraethu canlynol:

- **Canlyniadau perfformiad:** Ymrwymiad y Cyngor i'w weledigaeth a chyflawni canlyniadau perfformiad ar draws y Cyngor, wrth ystyried y cynnydd a wnaed o ran cyflawni Amcanion Lles a Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor.
- **Cynllunio corfforaethol:** Gallu'r Cyngor i ddiffinio a chynllunio canlyniadau cynaliadwy. Ystyried a yw penderfyniadau a wneir yn cynnwys barn yr holl fudd-ddeiliaid, yn hyrwyddo diben yr Awdurdod, yn cyfrannu at fuddion a chanlyniadau a fwriadwyd, ac yn aros o fewn terfynau awdurdod ac adnoddau.
- **Arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol:** Priodoldeb strwythurau a chapasiti arweinyddiaeth y Cyngor i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei fandad ei hun wrth ddatblygu sgiliau a phrofiad yr arweinwyr o hyd i ymateb i ofynion y dyfodol.
- **Rheoli perfformiad:** Effeithiolrwydd system rheoli perfformiad y Cyngor o ran hwyluso proses i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau a fwriadwyd drwy ddarparu cyfuniad o ymyraethau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol.
- **Cynllunio ariannol:** Hyfedredd system rheolaeth ariannol y Cyngor o ran gosod sylfaen a chyd-destun i wneud penderfyniadau, gweithredu polisïau a chyflawni canlyniadau a fwriadwyd.
- **Trefniadau Rheoli Risg:** Prosesau rheoli risg y Cyngor fel rhan annatod o system rheoli perfformiad ac ystyried pa mor dda yr eir i'r afael â risg yn rhan o bob penderfyniad.
- **Cynllunio'r gweithlu:** I ba raddau mae gan y Cyngor systemau ar waith i ddatblygu'r gweithlu i sicrhau bod ganddo'r gallu i ymateb i newid dros amser a bod ganddo'r sgiliau a'r profiad o arwain a'r gweithlu i gyflawni ei swyddogaethau.
- **Asedau:** Effeithiolrwydd trefniadau rheoli asedau'r Cyngor i sicrhau darpariaeth gwasanaeth effeithiol a gwerth am arian.
- **Caffael:** Effeithlonrwydd proses gaffael y Cyngor o ran bod yn gynaliadwy, cyflawni gwerth am arian a chreu buddion i bobl leol a'r economi leol, gan wneud cyn lleied â phosib' o niwed i'r amgylchedd.

Yn sylfaen i'n proses asesu mae asesiad yn erbyn yr egwyddorion llywodraethu da a nodir yn 'Delivering Good Governance in Local Government' CIPFA/SOLACE a'n fframwaith llywodraethu ein hunain, ac rydym wedi defnyddio'r fframwaith hwn i ddiffinio beth yw perfformiad da ym mhob un o'r meysydd hyn. Mae ein proses wedi cynnwys adolygiad o dystiolaeth oedd ar gael, cynnydd a wnaed ar y meysydd datblygu a nodwyd yn ein hunanasesiad 2022–2023 a sesiynau herio gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, swyddogion allweddol a'n haelodau etholedig.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys diweddariad ar gynnydd ar feysydd a nodwyd yn adroddiad 2022-23 i'w datblygu 2023-24 ac mae hefyd yn dynodi meysydd i'w datblygu o hyn ymlaen, a bydd cynnydd ar y rheiny'n cael ei drafod yn adroddiad 2024–25.

Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi y dylai'r adroddiad hunanasesu fod yn hygyrch ac yn gryno, felly mae'n cynnig crynodeb lefel uchel a strategol o'n perfformiad yn erbyn y naw thema. Mae'n nodi'r meysydd hynny y mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da ynddynt, yn ogystal â meysydd i'w datblygu ac mae'r rhain wedi'u nodi ym mhob un o'r themâu (adran 4).

# 3. Crynodeb o'n hunanasesiad 2023-24

Wrth gynnal yr asesiad, rydym wedi barnu ein perfformiad gan ddefnyddio'r drefn sgorio ganlynol:

**GWYRDD:** Perfformiad cyson dda gydag ychydig iawn o feysydd i'w datblygu.

**MELYN:** Perfformiad da gyda mwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.

**OREN:** Perfformiad boddhaol, ond efallai y bydd angen buddsoddi a mwy o gapasiti mewn nifer o feysydd allweddol.

**COCH**: Perfformiad gwan a chamau gweithredu i wella yn aneglur.

**Mae crynodeb o'n hunanasesiad yn erbyn y naw thema wedi'i nodi isod.**

| Thema | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Canlyniadau perfformiad | Oren | Melyn | Melyn |
| Cynllunio Corfforaethol | Gwyrdd | Melyn | Gwyrdd |
| Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol | Melyn | Oren | Oren |
| Rheoli Perfformiad | Melyn | Melyn | Melyn |
| Cynllunio Ariannol | Melyn | Oren | Oren |
| Trefniadau Rheoli Risg | Melyn | Melyn | Gwyrdd |
| Cynllunio'r Gweithlu | Melyn | Melyn | Melyn |
| Asedau | Oren | Oren | Melyn |
| Caffael | Melyn | Melyn | Melyn |

Mae manylion am sut rydym wedi dod i'r casgliadau hyn, ynghyd â'r meysydd rydym wedi'u nodi i'w datblygu, wedi'u cynnwys yn yr adran nesaf. Mae rhestr o rai o'r ffynonellau tystiolaeth allweddol a ddefnyddiwyd gennym i lunio'r casgliadau hyn i'w gweld yn atodiad 1.

# 4. Asesu yn erbyn ein themâu hunanasesu

## Thema: Canlyniadau perfformiad

Adlewyrchir ymrwymiad y Cyngor i'w weledigaeth a'r Amcanion Lles a'r Blaenoriaethau Gwella yn y cynnydd a wnaed ar gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Dylid cytuno ar gamau gweithredu ac ymyriadau newydd, er mwyn addasu ac ymateb lle nad yw cynnydd ar y trywydd iawn i gyflawni canlyniadau neu lle mae'n cael ei effeithio gan heriau allanol. Amlygir canlyniadau nad ydynt ar y trywydd cywir drwy'r fframwaith rheoli perfformiad. Yng ngoleuni her y pandemig, dylai tystiolaeth o gynnydd a phenderfyniadau mewn perthynas â'r dirwedd ddatblygol fod yn amlwg wrth fynd ar drywydd gweledigaeth y Cyngor[1]

Mae ein hamcanion lles newydd (blaenoriaethau'r Cyngor) wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor (2023-28) a gytunwyd gan y Cyngor yn Rhagfyr 2023. Mae Cynllun y Cyngor hefyd yn dangos sut mae ein hamcanion lles yn helpu i gyflawni Nodau Lles Cymru.

Rydym yn adrodd ar gynnydd blaenoriaethau'r Cyngor gan ddefnyddio ein Fframwaith Rheoli Perfformiad. Rydym yn adrodd ar ein perfformiad yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor yn chwarterol i aelodau etholedig, ddwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd Gweithredol a Chraffu, ac yn flynyddol i'r cyhoedd trwy ein hadroddiad perfformiad blynyddol. Ar y cyfan, ar ddiwedd blwyddyn gyntaf Cynllun y Cyngor (2023-28), beirniadwyd cyflawniad yn erbyn y cynllun fel melyn: sy'n golygu bod cynnydd da wedi cael ei wneud tuag at ddarparu canlyniadau blaenoriaeth y Cyngor, gyda thystiolaeth o welliant wedi cael ei arsylwi ar draws nifer o fesurau ym mlwyddyn 1 y cynllun.

- Mae crynodeb isod o'r ffordd yr ydym wedi asesu ein perfformiad o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun (2023-28). Gellir dod o hyd i'r manylion llawn yn yr adroddiad perfformiad blynyddol diweddaraf.

| BLAENORIAETH Y CYNGOR | COMG CYFFREDINOL |
|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Stryd Effeithlon a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd | Melyn |
| Datblygu'r Economi | Melyn |
| Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel | Melyn |
| Gwella Addysg a Dysgu | Melyn |
| Hybu Iechyd a Lles Da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da) | Melyn |
| Cefnogi Gweithlu Tra Medrus a Brwdfrydig, sy'n Canolbwyntio ar Ddarparu Gwasanaethau | Melyn |

Effeithiodd heriau cyllidebol y Cyngor ar gynnydd ar rai o'r meysydd gwaith a gynlluniwyd, a chafodd nifer o fesurau eu hadolygu ar gyfer blwyddyn 2 Cynllun y Cyngor (2023-28). Mae'r adolygiad yn nodi meysydd lle nad allwn ddarparu fel y disgwyliwyd yn wreiddiol a/neu meysydd lle bydd angen i ni symud o safle 'gwella' i safle 'cynnal' yn 2024-25 - mae mwy o fanylion ar ein trefniadau rheoli perfformiad ar gael yn y Thema Rheoli Perfformiad.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n canlyniadau wedi'u gwreiddio'n llwyr yng Nghynllun y Cyngor (2023-28). Mae manylion llawn am gynnydd ar ddiwedd y Cynllun i'w gweld yn yr adroddiad perfformiad blynyddol diweddaraf. Ar ddiwedd Cynllun y Cyngor (2023-28), roedd chwe chanlyniad cydraddoldeb wedi'u hasesu'n wyrdd (cynnydd da iawn wedi'i wneud tuag at ddarparu canlyniadau, gyda thystiolaeth gref o welliannau wedi'i gweld ar draws y rhan fwyaf o fesuryddion) a phump wedi'u hasesu'n felyn (cynnydd da wedi'i wneud, gyda thystiolaeth o welliannau wedi'i gweld ar draws sawl mesurydd perfformiad allweddol), ac un wedi'i asesu fel oren (cynnydd wedi'i wneud ond tystiolaeth gyfyngedig o welliant ar draws mesuryddion perfformiad allweddol). Roedd hyn yn dangos gwelliant tuag at fod yn Gyngor mwy cynhwysol.

Mae gwelliannau mewn rheoli perfformiad a chynllunio strategol a gweithredol ar lefel gwasanaeth wedi arwain at well cydnabyddiaeth o flaenoriaethau gwasanaeth ac ymatebolrwydd cynyddol i heriau. Roedd yr addasrwydd hwn wedi sicrhau ymatebion dynamig i amgylchedd newidiol. Yn benodol mae hyn wedi cynnwys cynnydd sylweddol yn y Gwasanaeth Addysg ac Ymyrraeth Gynnar gan arwain at gael eu tynnu o gategori achosi pryder sylweddol Estyn, adborth cadarnhaol gan Archwilio Cymru o'r Adran Gynllunio yn adolygiad Archwilio Cymru o'r trefniadau llywodraethu, a gwelliannau wedi'u hadrodd trwy wiriadau gwella Arolygiaeth Gofal Cymru o fewn Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant.

Mae ein trefniadau rheoli perfformiad hefyd yn amlygu ble rydym wedi wynebu heriau a ble sydd angen i ni wella. Yn benodol, mae perfformiad ailgylchu ar draws y Fwrdeistref Sirol wedi dirywio ac yn 2023/24 ni chyflawnodd ein perfformiad darged statudol Llywodraeth Cymru. Mae angen gwneud cynnydd yn 2024/25 i adolygu ein strategaeth wastraff i gyflawni targed cyfradd ailgylchu 2024/25 o 70% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gan gydnabod yr angen i barhau i ganolbwyntio ar berfformiad a darpariaeth gwasanaeth mewn hinsawdd o heriau ariannol cynyddol a galw cynyddol, bydd newidiadau yn cael eu gweithredu i'n trefniadau rheoli perfformiad er mwyn galluogi mwy o ganolbwynt ar welliant – gweler y thema rheoli perfformad.

Pan fydd cwynion yn cael eu gwneud yn erbyn y Cyngor, mae tystiolaeth o ddysgu o'r archwiliadau a bod camau yn cael eu gweithredu o'r canfyddiadau. Yn 2023/24, ymyrrodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn 9% o'r cwynion a wnaed i Gyngor Wrecsam, ymysg yr isaf o holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, cynyddodd cwynion ffurfiol o 164 yn 2022/23 i 291 yn 2023/24. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â chasgliadau gwastraff o ganlyniad i weithredu diwydiannol. Fodd bynnag, hyd yn oed wrth ystyried y cynnydd oherwydd y gweithredu diwydiannol, y bu cynnydd cyffredinol mewn cwynion ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Yn ein hunanasesiad 2022–23, fe wnaethom roi sgôr felen i'r thema hon, oedd yn golygu ein bod yn dangos perfformiad da a bod gennym fwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.**

Mae'r isod yn nodi'r meysydd 2023-24 ar gyfer datblygu a gytunwyd yn yr adroddiad 2022-23, y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain a'r penderfyniad i'w dwyn ymlaen ai peidio:

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Addysg ac Ymyrraeth Gynnar i gael ei dynnu o gategori 'ymweliad dilynol' Estyn o achosi pryder sylweddol. *(DLIB) | Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn y Gwasanaeth Addysg ac Ymyrraeth Gynnar i ddatblygu dull systematig ar gyfer gwerthuso gwasanaethau addysg a sefydlu cynlluniau strategol a gweithredol clir. Gan arwain at gael ei dynnu o gategori 'ymweliad dilynol' Estyn o achosi pryder sylweddol. | Na |
| Parhau ar y daith i wella yn y meysydd corfforaethol neu feysydd gwasanaeth hynny gyda chynlluniau gwella sydd wedi'u cytuno; Datgarboneiddio (corfforaethol) a Gofal Cymdeithasol (gwasanaeth). | Mae'r ddau faes, wedi'u llywio gan gynlluniau gwella y cytunwyd arnynt, wedi dangos cynnydd yn 2023/24. Mae cyfarwyddyd gwell a chynllunio gwell wedi hwyluso blaenoriaethu effeithiol:<br>• Gwnaeth Gofal Cymdeithasol gynnydd cyson ar hyd eu siwrnai gwella, fel y tystir gan y gwiriadau gwella a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn Hydref 2023, gyda AGC yn adrodd diwylliant newydd o ddisgwyliadau a safonau uwch mewn gofal cymdeithasol.<br>• Mae datgarboneiddio wedi cael ei flaenoriaethu ac ystyriwyd adnoddau fel rhan o osod cyllideb 2024-25. Er mwyn dal i gynhyrchu ac allyrru llai o garbon, yr her fwyaf fydd gwreiddio datgarboneiddio'n llwyr yn narpariaeth feunyddiol y Cyngor ac integreiddio datgarboneiddio yn effeithiol.<br>• Yr her wrth symud ymlaen yw cynnal y ddarpariaeth o berfformiad Cynllun y Cyngor. Bydd darparu'r Rhaglen Newid yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth a chynaliadwyedd ariannol yng nghyd-destun pwysau ariannol parhaus. | Na |

## Ein hasesiad 2023–24: Melyn (wedi'i gynnal)

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn gan fod perfformiad yn dda a bod mwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.

### Cryfderau

- Cynnydd nodedig wedi ei wneud ar holl flaenoriaethau'r Cyngor yn ystod blwyddyn gyntaf Cynllun Newydd y Cyngor, er gwaethaf yr angen i fynd i'r afael â heriau cyllidebol sy'n effeithio ar adnoddau.
- Mae gwelliannau mewn rheoli perfformiad a chynllunio strategol a gweithredol ar lefel gwasanaeth wedi arwain at ymatebolrwydd cynyddol i heriau mewn nifer o wasanaethau a chanfod blaenoriaethau gwasanaeth:
  - Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn y Gwasanaeth Addysg ac Ymyrraeth Gynnar i ddatblygu dull systematig ar gyfer gwerthuso gwasanaethau addysg a sefydlu cynlluniau strategol a gweithredol clir, gan arwain at ei dynnu o gategori 'ymweliad dilynol' Estyn o achosi pryder sylweddol.
  - Gwnaeth Gofal Cymdeithasol gynnydd cyson ar hyd eu siwrnai gwella, fel y tystir gan y gwiriadau gwella a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn Hydref 2023.

### Meysydd i'w datblygu

**Newydd**

- Cynnal darpariaeth perfformiad Cynllun y Cyngor, gan ganolbwyntio ar wasanaethau statudol a blaenoriaeth uchel. (Cylch Gorchwyl Rhaglen Newid)
- Adolygu'r Strategaeth Wastraff ac archwilio mentrau newydd i wella cyfraddau ailgylchu ar draws y Fwrdeistref Sirol er mwyn bodloni targedau statudol.

# Thema: Cynllunio Corfforaethol

Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau llywodraeth leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio canlyniadau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hybu pwrpas yr awdurdod, cyfrannu at fuddion a chanlyniadau a fwriadwyd, ac aros o fewn terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gael cydbwysedd rhwng galw o wahanol ochrau wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael[1]

Mae gennym weledigaeth glir, ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, sy'n llywio ein huchelgais, ein blaenoriaethau lles a'n prosesau cynllunio corfforaethol:

- Rydym yn cyhoeddi Cynllun y Cyngor sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a blaenoriaethau'r Cyngor (ein hamcanion lles), ac yn nodi sut maent yn cyfrannu at Nodau Lles Cymru. Mae'r Cynllun yn ddogfen gorfforaethol allweddol sy'n gyrru ein harweinyddiaeth a chyfeiriad strategol, ac yn tanategu darpariaeth holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'n nodi'r cyd-destun a chanolbwynt ar gyfer ein blaenoriaethai, yn diffinio sut fydd llwyddiant yn edrych ac yn nodi mesurau canlyniad clir. Mae ein Canlyniadau Cydraddoldeb Strategol wedi'u gwreiddio yn ein blaenoriaethau i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio arnynt yn y ffordd yr ydym yn dylunio ac yn darparu ein gwasanaethau.
- Mae'r Cynllun yn cynnwys adran ar ein cyllid sy'n adlewyrchu'n glir yr heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ac yn helpu i osod y cyd-destun yr ydym yn gweithredu ynddo.
- Dechreuodd proses gadarn i adolygu a chytuno ar flaenoriaethau ein Cyngor ar gyfer Cynllun y Cyngor 2023-28 yn Hydref 2022. Mae Archwilio Cymru wedi darparu sicrwydd cadarnhaol ar ein prosesau ar gyfer gosod blaenoriaethau'r Cyngor.
- Rydym yn gweithio'n rhanbarthol ac mewn partneriaeth i sicrhau bod ein cynllunio corfforaethol yn adlewyrchu materion a blaenoriaethau rhanbarthol – er enghraifft Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol.
- Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n llawn yn y cyfleoedd economaidd presennol sydd ar gael yn genedlaethol, rhanbarthol ac yn lleol er mwyn parhau i ddatblygu a chodi proffil Wrecsam o ran twristiaeth a buddsoddi.
- Fe unodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Sir y Fflint yn ffurfiol, ar ôl cydweithio'n agos i fynd i'r afael â materion trawsffiniol ar y cyd yn ystod y pandemig, gyda'r bwriad o gryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu, lleihau dyblygu gwaith a chanolbwyntio ar gyflawni canlyniadau lles hirdymor ar gyfer cymunedau'r ddwy sir. Mae Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (2023-28) mewn lle, ac yn alinio â chynlluniau strategol sefydliadau partner.

- Mae gennym ganllawiau cynllunio gwasanaeth cynhwysfawr i gefnogi gwasanaethau yn eu prosesau cynllunio eu hunain. Mae cefnogaeth wedi'i dargedu wedi cael ei ddarparu yn y meysydd hynny a nodwyd ar gyfer gwella, ac mae hyn wedi bod yn amlwg yn natblygiad fframweithiau rheoli perfformiad cryf ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion.
- Mae ein prosesau Adolygu a Datblygu Perfformiad yn sicrhau bod gweithgareddau gwasanaethau'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion a gofynion y gwasanaeth.
- Yn ystod y flwyddyn, bu'r Cyngor yn canolbwyntio ar reoli a pharatoi ar gyfer yr heriau ariannol a gweithredol a allai ddeillio o beidio â chael Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Yn sgil dyfarniad yn yr Uchel Lys yn 2023, mabwysiadodd y Cyngor y CDLl ym mis Rhagfyr 2023. Mae apêl yn erbyn y dyfarniad hwnnw'n mynd rhagddo bellach ac felly, er bod gan y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol a'i fod yn medru cynllunio ar sail hwnnw, mae'n dal yn broses anodd a llafurus i weithredu penderfyniadau yng nghyswllt y Cynllun oherwydd gwahaniaeth barn ynglŷn â'i ddilysrwydd. Disgwylir canlyniad yr apêl yn Hydref 2024.
- Mae gwaith ar gynlluniau strategol allweddol yn ystod 2023-24 wedi cynnwys: Strategaeth Pobl; Cynllun Rheoli Asedau; Strategaeth TGCh a Digidol; Creu Lleoedd; Strategaeth Mannau Agored; a Chynllun Rheoli Risg Llifogydd.

Rydym yn edrych at y tymor hir ac yn cynllunio canlyniadau cynaliadwy o fewn adnoddau ac yn rheoli risgiau i gyflawni ein canlyniadau:

- Cytunwyd ar Gynllun y Cyngor yn Rhagfyr 2023, yn dilyn adolygiad o'r blaenoriaethau arfaethedig a'r canlyniadau oedd eu hangen gan yr angen i adolygu'r canlyniadau arfaethedig yng ngoleuni pwysau ariannol ac o ran adnoddau a nodwyd ar ddiwedd 2022-23.
- Roedd archwiliad Archwilio Cymru o'n proses gosod amcanion lles (ein blaenoriaethau) wedi cadarnhau ein bod wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein prosesau. Roedd yr ystod o dystiolaeth a data a ystyriwyd, ynghyd ag adolygiad o'n cynllun y Cyngor blaenorol, yn rhoi sicrwydd fod y broses yn hyddysg o anghenion ac amgylchiadau presennol preswylwyr, yr heriau allweddol a'r gofynion maent yn ei wynebu, a sut all y rhain newid dros amser. Os cadarnheir ein bod wedi ystyried sut all ein blaenoriaethau gael effaith ehangach a darparu buddion hirdymor, a bod yr ymgysylltiad helaeth ac amrywiol gydag aelodau etholedig, budd-ddeiliaid a'r cyhoedd, wedi pwysleisio ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Mae gennym drefniadau mewn lle i fonitro darpariaeth ein blaenoriaethau - cefnogir yr holl flaenoriaethau gan fframwaith rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae Archwilio Cymru wedi darparu sicrwydd ein bod yn mesur a monitro perfformiad yn briodol. Mae ein proses adolygu blynyddol yn ein darparu ni â'r cyfle i ystyried a yw blaenoriaethau'r Cyngor mewn lle i helpu darparu nodau lles Cymru, yn ogystal â'n darparu ni â'r hyblygrwydd i adlewyrchu ar adnoddau, datblygiadau cenedlaethol a/neu blaenoriaethau lleol newidiol yn sgil pwysau galw ar wasanaethau, wrth osod targedau.

- Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i gwreiddio yn ein hymagwedd at gynllunio corfforaethol ac rydym yn cydnabod bod gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau yn gofyn am ddiffiniad ehangach na 'chyllid' – mae angen i ni sicrhau cydbwysedd rhwng effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein polisïau a'n cynlluniau. Mae asesiad o effaith integredig wedi cael ei ddatblygu i geisio asesiad o'r effaith o benderfyniadau arfaethedig ar ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau; grwpiau gwarchodedig o ran cydraddoldeb; y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol; y Gymraeg; a datgarboneiddio, ynghyd ag asesiad o sut mae cynigion wedi cael eu datblygu i alinio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ran cynllunio a gwneud penderfyniadau. (Gweithredu proses newydd 1 Mi 2024).
- Mae anawsterau o ran cyflawni cynllunio corfforaethol hirdymor ar hyn o bryd, o ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu sector y llywodraeth leol, ynghyd ag ansicrwydd o ran lefelau cyllido yn y dyfodol. Rydym yn parhau i wneud cais am setliad tair blynedd er mwyn ein galluogi i gynllunio'n fwy effeithiol. Rydym wedi sefydlu Rhaglen Newid yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth a chynaliadwyedd ariannol yng nghyd-destun y pwysau hwn. Bydd prosesau yn cefnogi gwneud penderfyniadau o ran canfod arbedion a deall effaith y penderfyniadau hyn ar ddarparu ein blaenoriaethau. Amcanion y Rhaglen Newid yw:
    - Cynnal darpariaeth perfformiad cynllun y cyngor, gyda chanolbwynt ar wasanaethau statudol a blaenoriaeth uchel; gweithredu gwelliannau yn unol â chynlluniau y cytunwyd arnynt yn dilyn arolygon rheoleiddio (Gofal Cymdeithasol ac Addysg).
    - Cefnogi cyflawniad cyllideb gynaliadwy drwy ddarparu rhaglen ddwy flynedd sy'n cynnal ac yn gweithredu lefel o arbedion y cytunwyd arnynt a ddiffinnir yn y CATC (£28 miliwn ar hyn o bryd) a'r arbedion na ddyrannwyd o £1.8 miliwn yng nghyllideb 24/25.
    - Sicrhau bod y gweithlu yn cyfrannu at y broses newid, sicrhau gwydnwch a chynllunio effeithiol ar gyfer swyddogaethau gwaith y dyfodol, prosesau ac arddull gwaith.
    - Cynnal sefydlogrwydd y Cyngor, sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gyda chronfeydd wrth gefn priodol a dyluniad sefydliadol sy'n addas i'r diben.
- Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu datgarboneiddio ar lefel strategol - mae datgarboneiddio wedi'i nodi fel blaenoriaeth i'r Cyngor, ac fe'i cefnogir gan weithgorau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ystyriaeth o adnoddau wrth osod cyllideb a chynllunio camau gweithredu, a chynnwys asesiadau effaith ar garbon yn yr asesiad o effaith integredig newydd. Mae'r angen i sefydlu datgarboneiddio ar draws y sefydliad wedi cael ei nodi fel mater arwyddocaol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (2023-24) ac mae camau gweithredu i gefnogi'r rhain wedi cael eu nodi a byddent yn cael eu datblygu a'u monitro gan y Bwrdd Datgarboneiddio.

Rydym yn gwahodd ac yn hwyluso her a thrafodaeth adeiladol ar flaenoriaethau, canlyniadau a thargedau, gan gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a'n budd-ddeiliaid.

- Mae gennym Strategaeth Gyfranogi glir, lefel uchel ar waith sy'n pwysleisio pwysigrwydd cydweithio â phreswylwyr drwy ymgynghori, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu, ac mae rheoleiddwyr allanol wedi rhoi sicrwydd bod cyfranogi'n rhan greiddiol o'n diwylliant.

- Cychwynnodd proses gadarn i adolygu a chytuno ar ein blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Cyngor 2023–28 yn hydref 2022, oedd yn cynnwys adolygiad o ddata a gwybodaeth, Byrddau Blaenoriaeth, Aelodau Etholedig a chyfranogiad gyda'r cyhoedd, budd-ddeiliaid a grwpiau sydd â llai o gynrychiolaeth. Fe ddefnyddiom wybodaeth sydd ar gael o'n gweithgareddau cyfranogi ni a'n partneriaid, yn ogystal ag ymgynghori'n benodol ar ein hamcanion arfaethedig. Roedd Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam (Mai 2022) yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol rydym wedi'i defnyddio i ddatblygu'r Cynllun Cyngor nesaf ac i gynllunio gwasanaethau'n ehangach. Roedd Archwilio Cymru yn cydnabod ansawdd ein dull o ddefnyddio data, a gweithgarwch ymgysylltu, ac wedi cydnabod bod ein gweithgareddau cyfranogi, a oedd yn cynnwys cyfleoedd i ymgysylltu â chymunedau a grwpiau gwarchodedig o ran cydraddoldeb mewn lleoliadau cymunedol, wedi arwain at ymgysylltiad gwell.
- Mae ein chwe Bwrdd Blaenoriaeth yn herio darpariaeth ein blaenoriaethau bob chwarter gan sicrhau bod ymyraethau'n cael eu dynodi a bod y Cyngor yn manteisio ar bob cyfle, yn ogystal ag arwain ar adolygiad blynyddol o flaenoriaethau a thargedau. Rydym yn sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad ar gael i aelodau etholedig bob chwarter, adrodd ddwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu, ac rydym yn cyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar ein gwefan. Bydd Byrddau Blaenoriaeth yn cael eu hadolygu yn gynnar yn 2024-25 er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol a bod eu gwaith yn cyd-fynd â gwaith y Rhaglen Newid a herio gwasanaeth yn fwy cyffredinol.
- Cafodd Insight, y system adrodd newydd ar gyfer Rheoli Perfformiad, Prosiectau a Risg, ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn hon, ac mae'n hybu ein gallu i ddadansoddi ac adrodd ar gyflawni ein blaenoriaethau a risgiau, a phennu ymyriadau angenrheidiol.

**Yn ein hunanasesiad 2022–23, fe wnaethom roi sgôr felen i'r thema hon, oedd yn golygu ein bod yn dangos perfformiad da a bod gennym fwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.**

Mae'r isod yn nodi'r meysydd 2023-24 ar gyfer datblygu a gytunwyd yn yr adroddiad 2022-23, y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain a'r penderfyniad i'w dwyn ymlaen ai peidio:

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| Y Cyngor yn cytuno ar yr amcanion lles ac yn mabwysiadu Cynllun y Cyngor (2023–28). | Cytunodd y Cyngor ar Gynllun y Cyngor 2023-2028 ym mis Rhagfyr 2023 ac mae bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae Archwilio Cymru wedi darparu sicrwydd ar y prosesau a ddilynwyd i ddatblygu'r amcanion lles, yn unol â'r egwyddor 'datblygiad cynaliadwy'. | Na |
| Gwella'r wybodaeth i rai sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn ei gwneud yn amlwg sut y bydd penderfyniadau'n cyfrannu at y buddion a'r canlyniadau a fwriedir, gan gynnwys goblygiadau pob penderfyniad o ran yr hinsawdd a charbon. | Mae proses asesiad effaith integredig newydd ac offer cefnogi wedi'i ddatblygu yn ystod y flwyddyn. Peilot a hyfforddiant wedi'i gwblhau yn barod ar gyfer y lansiad ym Mai 2024. | Na |
| Ystyried a lliniaru rhag goblygiadau penderfyniad y Cyngor i beidio mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol.*(DLIB) | Yn sgil dyfarniad yn yr Uchel Lys yn 2023, mabwysiadodd y Cyngor y CDLl ym mis Rhagfyr 2023. Mae apêl yn erbyn y dyfarniad hwnnw'n mynd rhagddo bellach ac felly, er bod gan y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol a'i fod yn medru cynllunio ar sail hwnnw, mae'n dal yn broses anodd a llafurus i weithredu penderfyniadau yng nghyswllt y Cynllun oherwydd gwahaniaeth barn ynglŷn â'i ddilysrwydd. Disgwylir canlyniad yr apêl yn Hydref 2024. | Ydi |
| Blaenoriaethu a gwreiddio datgarboneiddio ar draws y sefydliad. *(DLIB) | Mae'r Uwch Dîm Arwain yn parhau i arwain yr ymateb strategol ym maes datgarboneiddio wedi cyfrannu at y cynlluniau datgarboneiddio. Mae'r adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Gweithredol yn rhoi datganiad cynhwysfawr o'r sefyllfa ac yn egluro ein blaenoriaethau, wrth gynorthwyo â chyflawni argymhellion y rheoleiddwyr. Mae Swyddogion Arwain Themâu a Gweithgorau mewn lle i adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Datgarboneiddio a'r Pwyllgorau Craffu. Mae adnoddau ar gyfer datgarboneiddio yn parhau i fod yn heriol yn y cyd-destun ariannol presennol, a'r her wrth symud ymlaen yw gwreiddio datgarboneiddio i ddarpariaeth gwasanaeth beunyddiol y Cyngor ac i integreiddio Themâu datgarboneiddio effeithiol i'n gwaith gan dynnu ar gyllidebau gwasanaeth presennol. | Ydi |

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| Sefydlu Grŵp Cefnogwyr Cyfranogi ac Amrywiaeth i ddynodi a gwreiddio'r arfer orau ar draws y sefydliad. | Mae'r grŵp wedi cael ei sefydlu gyda chynrychiolwyr o bob adran a gwasanaethau allweddol, wedi'u henwebu gan Brif Swyddogion.  Mae canolbwynt ar uwchsgilio swyddogion allweddol er mwyn cefnogi a gwreiddio arferion gorau yn eu meysydd gwasanaeth ac i amlygu lle mae angen cymorth / gweithredu corfforaethol ychwanegol. | Na |

## Ein hasesiad 2023–24: Gwyrdd (wedi gwella)

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn gan fod perfformiad yn gyson dda heb fawr ddim meysydd i'w datblygu

### Cryfderau

- Mae ein gweledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol yn darparu ffocws clir ar gyfer ein hamcanion lles a'n gwasanaethau.
- Datblygwyd amcanion lles y Cyngor ar sail yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy' yn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'r sefydliad cyfan yn eu dilyn. Rydym yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau i lywio ein gwaith cynllunio corfforaethol a chynnwys ein budd-ddeiliaid.
- Rydym yn weithgar ar lefel ranbarthol mewn cyrff partneriaeth allweddol ac mae ein cynllunio corfforaethol yn adlewyrchu materion a blaenoriaethau rhanbarthol.
- Mae gennym brosesau cynllunio corfforaethol cadarn a phrosesau rheoli perfformiad ar waith, sy'n rhai hirdymor, ond sy'n hyblyg i'n galluogi i fod yn ymatebol.
- Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n llawn yn y cyfleoedd economaidd presennol sydd ar gael yn genedlaethol, rhanbarthol ac yn lleol er mwyn parhau i ddatblygu a chodi proffil Wrecsam o ran twristiaeth a buddsoddi.
- Sefydlu'r Rhaglen Newid yn gynnar er mwyn cynnal sefydlogrwydd y Cyngor, sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gyda chronfeydd wrth gefn priodol a dyluniad sefydliadol sy'n addas i'r diben.

### Meysydd i'w datblygu

**Wedi'i ddwyn ymlaen**

- Ystyried goblygiadau penderfyniad y Cyngor i beidio â mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol a'r penderfyniadau a chamau cyfreithiol dilynol, a lliniaru arnynt. (DLlB).
- Gwreiddio datgarboneiddio gydol y sefydliad. (DLlB)

**Newydd**

- Darparu'r Rhaglen Newid i gefnogi darpariaeth gwasanaeth a chynaliadwyedd ariannol yng nghyd-destun pwysau ariannol parhaus. (Cylch Gorchwyl Rhaglen Newid)

# Thema: Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol

Mae angen strwythurau ac arweiniad priodol ar lywodraeth leol. Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo'r capasiti i gyflawni ei fandad ei hun a sicrhau bod polisïau mewn lle i warantu fod ei reolaeth yn medru gweithredu'r sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae awdurdod yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, dylai'r Cyngor ddatblygu ei gapasiti yn ogystal â'r sgiliau a'r profiad o arwain gweithwyr unigol yn barhaus. Mae arweinyddiaeth mewn sefydliadau llywodraeth leol yn cael ei chryfhau gan gyfranogiad pobl o lawer o wahanol fathau o gefndiroedd, gan adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth[1]

Rydym yn arweinydd cymunedol cryf – ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor yn croesawu cyswllt â phartneriaid ac mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth wedi'u gwreiddio ar bob lefel o fewn y Cyngor i gyflawni amcanion cyffredin a gwella gwasanaethau.

Rydym wedi cynnal ein ffocws ar ein taith wella gorfforaethol a gwasanaeth - gan gynnwys datblygu cynlluniau gwella, ailstrwythuro uwch reolwyr a chomisiynu adolygiadau annibynnol.

Rydym yn sicrhau bod gennym strwythurau ac arweinyddiaeth briodol ar waith i weithredu'n effeithlon a chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd a chefnogi perthnasoedd effeithiol rhwng uwch arweinwyr ac Aelodau Arweiniol:

- Mae strwythurau ar waith i gefnogi uwch arweinwyr ac Aelodau etholedig, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Arweiniol i weithio'n agos i gytuno ar gyfeiriad – disgwyliadau o berthnasoedd gwaith parchus wedi'u nodi mewn egwyddorion a chylch gorchwyl clir sy'n cyd-fynd ag Egwyddorion Nolan.
- Gweithio'n weithredol i greu Cyngor cefnogol a pharchus lle mae Aelodau Etholedig a swyddogion wedi meithrin dealltwriaeth dda o'u swyddogaethau a chyfrifoldebau. Mae aelodau etholedig wedi bwydo yn ôl fod datblygiadau yn y cyfryngau cymdeithasol, ac ati, yn y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at gynnydd mewn llwyth gwaith wardiau, a all effeithio ar eu capasiti i gyflawni eu rolau mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau corfforaethol.
- Erbyn diwedd 2023-24 roedd gwelliant nodedig yn y gwerthoedd ac ymddygiad a ddangoswyd gan Aelodaeth Etholedig yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai cyfarfodydd y pwyllgor cynllunio wedi parhau i fod yn heriol o ganlyniad i Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor. Mae hyn yn tanategu'r angen i werthoedd ac ymddygiad gael ei drosglwyddo'n gyson ar draws rolau'r aelodau.
- Mae'r Prif Swyddogion yn adolygu strwythurau a'r rheolau sy'n llywio penderfyniadau o fewn eu gwasanaethau bob blwyddyn. Nid oedd adolygiad 2023-24 yn nodi unrhyw faterion systematig.

Mae ein prosesau gwneud penderfyniadau yn glir ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu galluoedd aelodau etholedig ac uwch reolwyr i sicrhau arweinyddiaeth effeithiol:

- Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Cyhoeddir rhaglen gwaith i'r dyfodol o benderfyniadau sydd i ddod ar y wefan.

- Mae'r Strategaeth Datblygu Aelodau yn hyrwyddo dealltwriaeth glir ac a rennir o rolau Aelodau Etholedig. Mae adroddiadau diweddaru chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn adrodd ar gynnydd yn erbyn y strategaeth a thanategu'r cynllun.
- Daliodd tîm Datblygu'r Gweithlu ati i weithio ag Aelodau Etholedig er mwyn codi proffil yr hyfforddiant craidd (sy'n cynnwys meysydd llywodraethu allweddol). Er bod ffigyrau wedi gwella yn 2023-24, mae cyfranogiad wedi parhau'n isel.
- Darparodd y Tîm Datblygu'r Gweithlu gefnogaeth a datblygiad er myn sicrhau bod gan yr arweinwyr y sgiliau cywir i weithredu newid a chyflawni canlyniadau - gan gynnwys comisiynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ganolbwyntio ar ymddygiad a gwerthoedd trwy hyfforddi arweinwyr.
- Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu arweinwyr a sicrhau bod gan yr arweinwyr hyn y sgiliau ac ymrwymiad i ddarparu canlyniadau gwell. Mar Strategaeth Pobl y Cyngor, a gytunwyd yn 2024, yn cydnabod mai ein gweithlu yw ein hased gorau a'r adnodd fwyaf pwysig, ac fe'i cefnogir gan ein Strategaeth Datblygu'r Gweithlu, sy'n nodi'r fframwaith a chefnogaeth sydd mewn lle i ganfod a chynnig cyfleoedd hyfforddi.
- Mewn meysydd gwasanaeth sydd angen gwella yn dilyn rheoliadau allanol, mae asiantaethau allanol wedi cydnabod ymrwymiad da o fewn arweinyddiaeth i ddarparu canlyniadau gwell ac nid yw'r Cyngor bellach mewn safle rheoleiddio sydd angen gwella (Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru).

Mae ein harweinyddiaeth wedi ymrwymo i ddiwylliant agored, mae ganddi ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a chyflawni canlyniadau gwell:

- Adolygwyd 'gwerthoedd ac ymddygiad' y Cyngor yn 2023-24 ac mae'r fersiwn ddiweddaraf wedi cael ei ymgorffori yng Nghynllun Newydd y Cyngor 2023-28.
- Mae gennym adnoddau a phrosesau da ar waith i gynnal safonau ymddygiad a safonau moesegol uchel a chadw at reol y gyfraith. Mae'r Swyddog Monitro Statudol a Swyddog Adran 151 yn mynychu cyfarfodydd allweddol y Cyngor a'r Uwch Dîm Arwain i ddarparu cyngor ar reol y gyfraith.
- Cynhaliwyd seminar arweinyddiaeth yn 2023-24 a oedd yn cynnwys Aelodau, Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth. Roedd y seminar yn canolbwyntio ar werthoedd, ymddygiad a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae rhaglen ddilynol wedi'i chynllunio ar gyfer 2024-25.
- Wedi cynnal arferion da o ran tryloywder ar adrodd ac archwilio drwy gydol y flwyddyn a threfniadau i rannu gwybodaeth yn agored trwy bwyllgorau wedi'u gweithredu'n llawn.
- Roedd polisïau, cyflwyniad a hyfforddiant cadarn ynghylch disgwyliadau a chodau ymddygiad ar gyfer gweithwyr ac Aelodau etholedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gadarn ac yn unol â chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru.

- Roedd hyfforddiant gorfodol ar gael i'r holl weithwyr ar feysydd deddfwriaeth allweddol (fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, Safonau'r Gymraeg, ac ati), fodd bynnag, rydym wedi gweld bod angen gwella'r prosesau monitro ac adrodd i roi sicrwydd am gyfraddau cyflawni.
- Mae Uwch Arweinwyr yn cael eu hyfforddi i arwain ar ddiwylliant o ddatblygiad proffesiynol ac i sicrhau bod y rhain yn cael eu gweld fel agwedd bwysig o les a chadw gweithwyr. Er bod tystiolaeth i ddangos bod y mwyafrif o PRDs wedi'u cwblhau yn ôl y disgwyl, byddai mwy o gysondeb o ran cwblhau yn ôl y terfynau amser yn sicrhau proses fwy cadarn.
- Gweithiom mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur, gan gyfarfod yn fisol a rhannu, trafod ac ymgynghori'n rheolaidd ar ein polisïau a'n harferion gweithlu.

**Yn ein hunanasesiad ar gyfer 2022–23, fe wnaethom roi sgôr oren i'r thema hon, oedd yn golygu ein bod wedi dangos perfformiad boddhaol, ond y gallai fod angen buddsoddi a mwy o gapasiti mewn nifer o feysydd allweddol.**

Mae'r isod yn nodi'r meysydd 2023-24 ar gyfer datblygu a gytunwyd yn yr adroddiad 2022-23, y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain a'r penderfyniad i'w dwyn ymlaen ai peidio:

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| Gwella diwylliant, gwerthoedd, ymddygiad a ffyrdd o weithio mewn cyfarfodydd cyhoeddus. *(DLIB) | Yn gyffredinol, erbyn diwedd 2023-24 rydym wedi gweld gwelliant mewn gwerthoedd ac ymddygiad ymysg Aelodau etholedig mewn cyfarfodydd cyhoeddus o gymharu â'r un cyfnod yn 2022-23. Roedd rhai cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn parhau i fod yn anodd yn sgil ymddygiad Aelodau nad oeddent ar y Pwyllgor. Cafodd hyn ei adlewyrchu hefyd yng nghanfyddiadau 'Adolygiad Trefniadau Llywodraethu gyda chanolbwynt penodol ar y Gwasanaeth Cynllunio yng Nghyngor Wrecsam' gan Archwilio Cymru (Ionawr 2024). | Ydi |
| Gwella'n sylweddol nifer yr Aelodau Etholedig sy'n ymgymryd â hyfforddiant craidd a modiwlau e-ddysgu llywodraethu allweddol. *(DLIB) | Daliodd tîm Datblygu'r Gweithlu ati i weithio ag aelodau etholedig ac arweinwyr grwpiau er mwyn codi proffil yr hyfforddiant craidd ac egluro sut i gael mynediad at y modiwlau e-ddysgu allweddol ym maes llywodraethu. Er bod ffigyrau wedi gwella, mae cyfranogiad wedi parhau'n isel. Eir ati i ddatrys trafferthion y mae aelodau unigol yn eu cael â defnyddio'r porth e-ddysgu. | Ydi |
| Gwella niferoedd yn y gweithlu sy'n gwneud hyfforddiant ar bynciau dysgu gorfodol a gwella adrodd ar y niferoedd hynny i wella monitro drwy'r sefydliad (a Thema Cynllunio'r Gweithlu). | Roedd archwiliad mewnol o'r tîm Datblygu'r Gweithlu wedi adrodd sicrwydd 'Oren' ym Mai 2023 mewn perthynas â'r angen i wella trefniadau monitro er mwyn darparu sicrwydd bod yr holl hyfforddiant gorfodol wedi cael eu cwblhau yn foddhaol ar draws y gweithlu. Mae cynnydd wedi cael ei wneud a bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro gan archwilio mewnol. | Na |

## Ein hasesiad 2023–24: Oren (wedi'i gynnal)

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn gan fod perfformiad yn foddhaol, ond efallai y bydd angen buddsoddi a mwy o gapasiti mewn nifer o feysydd allweddol.

### Cryfderau

- Rydym yn arweinydd cymunedol cryf - ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ac rydym yn croesawu cyswllt â phartneriaid ac mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth wedi'u gwreiddio ar bob lefel o fewn y Cyngor i gyflawni amcanion cyffredin a gwella gwasanaethau.
- Rydym wedi cynnal ein canolbwynt ar ein siwrnai gwella gwasanaeth a chorfforaethol gydag arweinyddiaeth a chyfeiriad cryf a pharhaus gan y Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth mewn meysydd gwasanaeth sydd angen gwella.
- Fe wnaeth arweinyddiaeth o fewn y Cyngor gynnal arferion da o ran adrodd, fframwaith cyfarfodydd ac archwilio drwy gydol y flwyddyn.
- Cynllun amrywiol o hyfforddiant a gweithdai i gefnogi Aelodau etholedig a swyddogion i ddeall rolau a chyfrifoldebau ac annog ymddygiad a gwerthoedd cadarnhaol.
- Cyfathrebiad rheolaidd ar lywodraethu, polisïau a gweithdrefnau.

### Meysydd i'w datblygu

**Wedi'i ddwyn ymlaen**

- Gwella'r diwylliant, gwerthoedd, ymddygiad a ffyrdd o weithio mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu i wreiddio'r gwerthoedd ac ymddygiadau newydd a gwella ffyrdd o weithio. (DLIB)
- Sicrhau bod gan Aelodau etholedig a Phwyllgorau fynediad at, ac yn cymryd mantais o hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni eu rolau a chyfrifoldebau. (DLIB)

**Newydd**

- Sefydlu diwylliant sy'n cefnogi'r rhaglen newid er mwyn datblygu Cyngor modern, sy'n gadarn yn ariannol a masnachol ac yn addas ar gyfer yr amgylchedd modern.
- Cyflwyno Rhaglen Gwerthoedd ac Ymddygiad ar draws y sefydliad yn seiliedig ar y Gwerthoedd newydd o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 ac Egwyddorion Nolan i fywyd cyhoeddus.

# Thema: Rheoli perfformiad

Mae'r system rheoli perfformiad yn hwyluso proses i sicrhau bod llywodraeth leol yn cyflawni ei chanlyniadau bwriedig drwy ddarparu cymysgedd o ymyraethau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol. Mae angen i lywodraeth leol sicrhau bod gan sefydliadau a strwythurau llywodraethu mae'n eu goruchwylio system rheoli perfformiad effeithiol ar waith, ac un y maent yn gallu ei chynnal, sy'n hwyluso darparu gwasanaethau a gynlluniwyd yn effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu penderfyniadau a wneir yn barhaus er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni i'r eithaf.

Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad, ynghyd â system gref o reolaeth ariannol. Mae hefyd yn hanfodol bod diwylliant a strwythur craffu ar waith fel rhan allweddol o drefniadau gwneud penderfyniadau atebol.[1]

Mae gennym strwythurau llywodraethu effeithiol ar waith i gynnal perfformiad effeithiol:

- Mae Byrddau Blaenoriaeth (yn cynnwys dau Brif Swyddog, dau Aelod Arweiniol, a swyddogion allweddol) yn eu lle i gefnogi cyflawni pob un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor ac maent yn atebol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Arweiniol, y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor.
- Roedd ein hadroddiad perfformiad blynyddol 2023-24 wedi dod i'r casgliad fod cyflawniad ar ddiwedd blwyddyn gyntaf Cynllun Newydd y Cyngor (2023-28), yn felyn, gyda chynnydd da wedi cael ei wneud tuag at ddarparu canlyniadau blaenoriaeth y Cyngor, gyda thystiolaeth o welliant wedi cael ei arsylwi ar draws nifer o fesurau.
- Mae cardiau sgorio perfformiad yn cynnwys colofn 'ymyraethau' sy'n sicrhau bod camau unioni'n cael eu pennu i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformiad. Darparu cyswllt clir rhwng y dangosyddion perfformiad a chamau gweithredu a chefnogi Byrddau Blaenoriaeth i ganolbwyntio ar wella perfformiad cynaliadwy.
- Mae Insight, y system Reoli Perfformiad Corfforaethol, Risg a Phrosiect newydd, bellach yn fyw gan leihau'r risg o wallau defnyddiwr a darparu trywydd archwilio gynhwysfawr.
- Mae gweithdrefnau adrodd ar reoli prosiect wedi'i adolygu ar y cyd â gweithredu'r system reoli perfformiad, risg a phrosiect newydd - Insight. Mae'r Fframwaith Rheoli Prosiect wedi cael ei wella a'i loywi, mae canllawiau i ddefnyddwyr wedi cael eu datblygu ac mae'r broses yn alinio â'r system newydd, gyda'r bwriad i'w rhoi ar waith yn 2024-25. Gwaith i alinio prosiectau cyfalaf ac nad ydynt yn gyfalaf, i ddilyn gweithrediad.

Rydym yn adrodd yn rheolaidd ar ein cynnydd ar gyflawni ein hamcanion.

- Cafodd adrodd ar y Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer Cynllun y Cyngor 2023-28 ei oedi tan chwarter 3 2023-24, oherwydd yr angen i adolygu blaenoriaethau'r Cyngor o fewn y cynllun yng ngoleuni'r heriau ariannol ac arbedion cost posibl.
- Ein prosesau adrodd yw bod y Byrddau Blaenoriaeth yn cwrdd yn chwarterol i adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor. Mae perfformiad yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor ar gael yn chwarterol i Aelodau Etholedig, yn cael eu hadrodd ddwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd

Gweithredol, Craffu a'r Grŵp Cydlynu Craffu (i lywio rhaglenni gwaith craffu), ac yn flynyddol i'r cyhoedd trwy ein hadroddiad perfformiad blynyddol. Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn cynnwys atodiad sy'n nodi'r craffu sydd wedi digwydd yn y flwyddyn, mewn perthynas â'r blaenoriaethau. Yn 2023/24, yr adroddiad cyntaf ar gyfer y Byrddau Blaenoriaeth oedd yn chwarter 3 a'r adroddiad cyntaf i'r Byrddau Gweithredol a Chraffu oedd yn chwarter 4.

- Aeth Insight, y system gorfforaethol newydd ar gyfer rheoli perfformiad, risg a phrosiect yn fyw ac wedi gwella ein gallu i ddadansoddi ein blaenoriaethau, adrodd yn eu cylch a phennu ymyriadau angenrheidiol. Cafodd y Fframwaith Rheoli Perfformiad mewnol ei adolygu a'i alinio â'r system newydd yn 2023/24 trwy'r Tîm Perfformiad, Gwella a Phartneriaethau.
- Mae rhai aelodau etholedig wedi codi pryderon fod cyflymder y penderfyniadau o ran gwasanaethau (yn arbennig, cynigion y Rhaglen Newid) yn golygu bod llai o gyfleoedd ar gyfer craffu cyn gwneud penderfyniadau.

Rydym yn defnyddio dull 'edefyn aur' o reoli perfformiad ac adolygu ymyriadau ar bob lefel pan nad yw'r cynnydd ar y trywydd iawn:

- Mae ein pecyn gwaith ar y fframwaith rheoli perfformiad yn cefnogi dull cynllunio gwasanaeth cyson. Mae'n rhoi arweiniad cynhwysfawr i bob gwasanaeth ar gynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau, monitro perfformiad parhaus a'r broses adolygu a hunanasesu.
- Cafodd Fframwaith Rheoli Perfformiad Cynllun y Cyngor ei gryfhau fel rhan o ddatblygu Cynllun Newydd y Cyngor 2023-28 ac mae bellach yn cynnwys mesurau canlyniadau gwell gan sicrhau gwell dealltwriaeth o effaith gweithgareddau'r Cyngor.
- Rhoddwyd cynlluniau mewn lle i adolygu Fframwaith Rheoli Perfformiad Cynllun y Cyngor ddwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau yn berthnasol yng nghyd-destun heriau'r gyllideb a ffactorau allanol, a bydd hefyd yn rhoi cyfle i ystyried unrhyw fesurau canlyniad perthnasol ychwanegol sy'n codi.
- Adroddodd Archwilio Cymru bod prosesau a gweithgareddau'r Cyngor yn darparu sicrwydd ei fod yn mesur a monitro perfformiad yn briodol ac yn dysgu gwersi o'r ffordd mae'n gosod ei amcanion. Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion lles blaenorol a ddefnyddir er mwyn llywio dealltwriaeth y corff o'r angen tymor byr / 'fel ag y mae.'
- Mae uwch reolwyr, Aelodau Arweiniol a phwyllgorau craffu'n gwneud swyddogaeth herio werthfawr. Mae gwasanaethau yn adrodd yn rheolaidd i Bwyllgorau Craffu yn ôl yr angen, ac mae prosesau mewn lle i aelodau etholedig gyfeirio pryderon am berfformiad ar gyfer ei herio gan graffu.
- Defnyddiwyd amryw o ddulliau ar draws y gwasanaethau er mwyn darparu gwybodaeth am berfformiad i uwch arweinwyr. Ar lefel gwasanaeth mae ystod a dyfnder y mesurau hyn yn sylweddol. Fodd bynnag, maent wedi'u hidlo er mwyn creu cyfres gryno o fesurau adrodd corfforaethol lefel uchel, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau perfformiad Cynllun y Cyngor 2023-28. Mae enghreifftiau o lywodraethu perfformiad gwasanaeth yn cynnwys;

- ► Gweithredu'r Strategaeth TGCh a Digidol a'i fonitro'r rheolaidd yn y Bwrdd Rhaglen TGCh a Digidol.
- ► Canolbwynt ar gynllunio gwasanaeth a rheoli perfformiad yng ngofal cymdeithasol i gefnogi gwelliannau a thrawsnewid.
- ► Dull systematig ar gyfer gwerthuso gwasanaethau addysg a chynllunio ar gyfer gwella yn y gwasanaeth addysg ac ymyrraeth gynnar. Cyflawnwyd gwaith yn 2023/24 i wella ansawdd cynlluniau busnes a mesurau perfformiad o fewn y rhain.
- ► Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn monitro ei berfformiad trwy'r Pwyllgor Cynllunio. Fodd bynnag, canfu Archwilio Cymru fod oedi o ran mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wedi arwain at Wrecsam i fod yr unig Gyngor yng Nghymru na oedd wedi gallu elwa o'r data a gynhyrchwyd ar gyfer adroddiadau monitro CDLl statudol i hysbysu a thanategu trefniadau gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod hwn.

- Cefnogodd ein Tîm Perfformiad, Gwella a Phartneriaethau ein gwasanaethau i wreiddio'r dulliau hyn.
- Cyflawnwyd ystod o weithgareddau cyfranogi yn 2023/24, er mwyn casglu adborth gan gwsmeriaid a hysbysu'r adroddiad perfformiad. Cyflawnwyd 45 o arolygon trwy lwyfan cyfranogi'r Cyngor 'Eich Llais', gan gynnwys cwestiynau monitro cydraddoldeb yn ôl y safon, gan alluogi'r Cyngor i ddadansoddi'r gwahaniaethau mewn safbwyntiau a boddhad rheng y rhai a oedd yn cynrychioli gwahanol nodweddion gwarchodedig.

Rydym yn gweithio i wella'r defnydd ac ansawdd data a meincnodi dangosyddion perfformiad er mwyn hysbysu penderfyniadau i sicrhau y ceir y cyflawniad gorau o ran y canlyniadau:

- Ar ddiwedd 2023-24, lansiodd Data Cymru Becyn Gwaith Set Ddata Perfformiad Hunanasesu a Phecyn Gwaith Proffil Perfformiad Awdurdod Lleol, sy'n cyfrannu tuag at ddisodli Mesurau Atebolrwydd Perfformiad Llywodraeth Cymru a ddaeth i ben yn 2019, ac i alluogi meincnodi. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddefnyddio'r adnodd hwn er mwyn deall ein perfformiad yn well mewn perthynas ag awdurdodau lleol eraill.
- Rydym yn cydnabod yr angen i gryfhau data safbwynt defnyddiwr gwasanaeth ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddatblygu arolwg preswylwyr blynyddol i Gymru gyfan, er mwyn canfod lle gellir cynnwys data perthnasol er mwyn llywio cynnydd mewn perthynas â safbwynt defnyddwyr gwasanaeth.
- Mae ein hadolygiad blynyddol ac adolygiad gosod targedau yn helpu i sicrhau bod Fframwaith Rheoli Perfformiad Cynllun y Cyngor yn cynnal canolbwynt ar ganlyniadau (gan gynnwys safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth lle bod hyn ar gael).
- Rydym yn fodlon bod ein trefniadau ansawdd data corfforaethol yn gyson ac yn ddigonol, ac rydym yn parhau i fireinio prosesau wrth i Fframwaith Rheoli Perfformiad Cynllun y Cyngor gael ei sefydlu. Mae ein system rheoli prosiectau, perfformiad a risg newydd ('Insight') yn lleihau'r risg o wallau defnyddiwr ac yn darparu trywydd archwilio effeithiol.

**Yn ein hunanasesiad 2022–23, fe wnaethom roi sgôr felen i'r thema hon, oedd yn golygu ein bod yn dangos perfformiad da a bod gennym fwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.**

Mae'r isod yn nodi'r meysydd 2023-24 ar gyfer datblygu a gytunwyd yn yr adroddiad 2022-23, y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain a'r penderfyniad i'w dwyn ymlaen ai peidio:

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| Gweithredu'r System Rheoli Risg a Pherfformiad newydd i wella trefniadau casglu a chofnodi data i wella effeithiolrwydd, lleihau'r risg o gamgymeriadau data a gwella hygyrchedd gwybodaeth. | Caffael a gweithredu system Perfformiad, Risg a Phrosiectau newydd yn ystod y flwyddyn. Cyflwyniad dechreuol ar gyfer risg a pherfformiad wedi'i gwblhau ac adroddiad perfformiad a risg corfforaethol chwarter 3 / chwarter 4 wedi'i gwblhau trwy'r system newydd.<br><br>Prosiectau i'w gweithredu ar ddechrau 2024-25. | Na |
| Datblygu a chyflwyno dangosyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer blaenoriaethau Cynllun newydd y Cyngor a defnyddio dangosyddion perfformiad sy'n cymharu ac yn meincnodi. | Datblygwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd i gyd-fynd â Chynllun newydd y Cyngor yn canolbwyntio ar effaith a mesurau canlyniad.<br><br>• Roedd y Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd yn cynnwys mesurau canlyniad/mesurau cefnogi/ camau cefnogi a dangosyddion cyd-destunol.<br><br>• Mae angen mwy o waith er mwyn datblygu'r defnydd o argaeledd data meincnodi. | Ydi |
| Canolbwyntio ar ddefnyddio gwybodaeth am ganlyniadau perfformiad defnyddwyr gwasanaeth i lywio trefniadau cynllunio gwasanaeth yn y dyfodol a diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth (i gael ei lywio gan adolygiad Archwilio Cymru yn hydref 2023). | Er bod tystiolaeth fod data defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio ar lefel gwasanaeth, mae posib datblygu hyn ymhellach trwy gynnwys data defnyddiwr gwasanaeth lefel uchel i adroddiadau corfforaethol.<br><br>Roedd canlyniadau blaenoriaeth y Cyngor wedi'u llywio'n uniongyrchol gan yr hyn roedd pobl yn dweud oedd yn bwysig iddyn nhw, ac mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad wedi'i strwythuro o amgylch mesuriadau canlyniad sy'n dangos effaith ar y meysydd hyn.<br><br>Adolygiadau o fesurau a thargedau, ddwywaith y flwyddyn wedi'u cynllunio.<br><br>Dechreuodd gwaith dechreuol mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer arolwg preswylwyr blynyddol. | Ydi |

## Ein hasesiad 2023-24 - Melyn (wedi'i gynnal)

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn gan fod perfformiad yn dda a bod mwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.

### Cryfderau

- Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor wedi cryfhau. Mae mesurau canlyniad sydd wedi'u hystyried yn ofalus a gweithgarwch tanategu yn darparu sicrwydd o fesur a monitro perfformiad priodol.
- Adolygiad parhaus o fesurau a thargedau er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar allu i gyflawni a chanlyniadau.
- Mae'r Cyngor wedi cynnwys gwersi i'w dysgu er mwyn gwella'r ffordd mae'n diffinio ei flaenoriaethau a chanlyniadau trwy adolygu perfformiad cynllun y gorffennol a thynnu ar amrywiaeth o ddata, ac mae hyn wedi cael ei gydnabod gan Archwilio Cymru.
- Darparwyd amryw o wybodaeth am berfformiad gwasanaeth i uwch arweinwyr.
- Mae ansawdd a chywirdeb adrodd ar gyflawni blaenoriaethau a risgiau, wedi cael ei wella gan y system rheoli perfformiad a risg corfforaethol newydd.
- Roedd trefniadau craffu ac arsylwi effeithiol mewn lle trwy gydol y flwyddyn, ac atgyfnerthwyd hyn gan hyfforddiant craffu a ddarparwyd gan CLlLC.

### Meysydd i'w datblygu

**Wedi'i ddwyn ymlaen**

- Archwilio'r defnydd o Becyn Gwaith Hunanasesu Data Cymru ar draws y sefydliad er mwyn cefnogi meincnodi a gwella gwasanaeth.
- Parhau i gydweithio gyda CLlLC i ddatblygu arolwg preswylwyr blynyddol Cymru Gyfan a chanfod mesurau safbwynt defnyddiwr gwasanaeth perthnasol sy'n alinio â blaenoriaethau'r Cyngor.

**Newydd**

- Sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yn canolbwyntio fwy ar gynnwys ystyriaeth o reoli'r galw a phwysau o ran perfformiad, i gynnwys cyflwyno Cardiau Sgorio Cytbwys ar gyfer pob gwasanaeth allweddol i sicrhau eglurder o'r hyn y gall y Cyngor ei gynnal o fewn cy-destun toriadau cyllidebol y dyfodol.

# Thema: Cynllunio ariannol

Mae system gref o reolaeth ariannol yn hanfodol i weithredu polisïau a chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau'n strategol, darparu gwasanaethau'n effeithlon, ac atebolrwydd[1]

Rydym yn edrych i'r tymor hir ac yn sicrhau bod ein strategaethau ariannol tymor canolig, cyn belled ag y bo modd, yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus ar faterion cyflawni a newidiadau arwyddocaol yn yr amgylchedd allanol:

- Rydym wedi mynd i'r afael â chadernid ariannol mewn ymateb i'r pwysau cynyddol ar gyllidebau gwasanaeth, gan ddangos tryloywder yn ein camau gweithredu. Cafodd hyn ei nodi fel mater arwyddocaol yn yr adolygiad Llywodraethu Blynyddol yn 2023-24 ac i mewn i 2024-25, yn sgil lefelau uchel o ddisgwyliad, galw cynyddol, cymhlethdodau a chostau.
- Roedd sefyllfa derfynol ein cyllideb ar gyfer 2023-24 yn unol â'r rhagestyniadau a'r strategaeth.
- Rydym wedi gwneud gwelliannau i drefniadau a phrosesau llywodraethu gan gynnwys eglurder a phrydlondeb ein dull strategol, fel y tystiolaethwyd gan Archwilio Cymru.
- Cafodd ein Cyllideb a Chynllun Ariannol Tymor Canolig eu cymeradwyo ar gyfer 2024-25 ac mae cynllunio ar gyfer 2025-26 a 2026-27 yn mynd rhagddo. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chyllideb y Cyngor, yn nodi'r fframwaith ar gyfer gofynion gwario a buddsoddi yn y dyfodol yn erbyn amrywiaeth o sefyllfaoedd cyllid.
- Roeddem yn diweddaru ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu'r rhagdybiaethau diweddaraf ac i sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn effeithiol i bwysau cyllidebol posibl sy'n codi.
- Rydym wedi sefydlu Rhaglen Newid yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth a chynaliadwyedd ariannol yng nghyd-destun y pwysau ariannol parhaus.
- Gweithiom ar y cyd ar lefel ranbarthol i sicrhau ein bod yn sylwi ar ffactorau rhanbarthol yn gynnar.
- Mae risg ariannol yn rhan o bob asesiad risg.
- Bydd y Rhaglen Gyfalaf i 2026-27 yn cael ei diweddaru yn hydref 2024. Fodd bynnag, mae rheoli'r annisgwyl mewn perthynas â'r sefyllfa refeniw yn anodd tu hwnt i un flwyddyn, o ystyried ansicrwydd y cyllid setliad.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni reoli pwysau ar wasanaethau yn effeithiol er mwyn sicrhau gwydnwch ariannol a chynaliadwyedd hirdymor:

- Cafodd gwasanaethau gyda gofynion cyllidebol heriol, eu cefnogi trwy grwpiau tasg a gorffen. Yn 2023-24, cyflawnwyd gwaith i reoli'r pwysau ariannol yn adrannau Gofal Cymdeithasol, ac Yr Amgylchedd a Thechnegol.

- Roeddem yn cydnabod yr angen i wella rheolaeth ar gomisiynu lleoliadau digontract ym maes Gofal Cymdeithasol i Blant. Maes pwysig yn sgil lefelau uchel o ddisgwyliadau a galw a chostau cynyddol yn y meysydd hyn.
- Yn 2023-24, fe adolygom y strwythur staffio o fewn y Gwasanaeth Cyllid er mwyn gwella gwydnwch - rheoli swyddi gwag o fewn cyd-destun sefyllfa gyllidebol cyffredinol, mynd i'r afael â chydbwysedd cyfrifoldebau gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod y lefel angenrheidiol o adnoddau i feysydd gwasanaeth blaenoriaeth a pharatoi gweithrediad y system ariannol graidd.

Mae gennym drefniadau rheoli ariannol ac adrodd cadarn:

- Mae'r corff rheoleiddio wedi mynegi barn ffafriol ynghylch y gwelliannau a wnaed yn ein trefniadau a phrosesau llywodraethu ac eglurder ac amseroldeb ein hagwedd strategol at reolaeth ariannol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Rhaglen Newid er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cynllunio, yn weithredol a gwleidyddol, ar gyfer cyflawni ei flaenoriaethau mewn hinsawdd economaidd heriol.
- Yn 2023-24, adferwyd y sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn dda, yn unol â'r rhagolygon. Nid oedd y sefyllfa derfynol yn destun defnyddio cronfeydd wrth gefn, ar ôl rheoli pwysau posibl o £23.8m o fewn y flwyddyn.
- Fe wnaethom sicrhau fod ein trefniadau rheoli ariannol yn gadarn. Fel rhan o raglen cynnig gwella Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, fe wnaethom gomisiynu adolygiad i asesu'r sefyllfa gyllidebol a llunio gwersi o'r sefyllfa derfynol yn 2022-23. Roedd yr adolygiad yn rhoi sicrwydd bod yr agweddau sylfaenol o adrodd yn ariannol yn gadarn, wrth amlygu meysydd ar gyfer dysgu.
- Croesawodd y Cyngor y meysydd ar gyfer dysgu o adolygiad ALILIC ac mae'n gwneud cynnydd da wrth weithredu'r camau, gan gynnwys; canolbwyntio ar wella rhagolygon galw, canolbwyntio ar yr Adrannau Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd a Thechnegol trwy waith Grŵp Tasg a Gorffen, rheoli a monitro pwysau posibl yn ystod y flwyddyn, gwella adroddiadau, a gwella Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan ei ddiweddaru'n rheolaidd.
- Yn dilyn adolygiad o'n system ariannol craidd a phrosesau cysylltiedig, fe roddom system newydd ar waith a fydd yn cefnogi adroddiadau ariannol, a darparu cwmpas i adrodd ar ganlyniadau ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol gyda'i gilydd.
- Cyflwynom adroddiadau i'r Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau craffu yn ôl yr angen, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Cafodd rhagolygon y gyllideb eu hadrodd i'r Bwrdd Gweithredol bum gwaith yn ystod y gylchred, gydag adroddiadau ychwanegol yn cael eu gwneud i holl Aelodau rhwng adroddiadau pwyllgor ffurfiol.
- Cynhaliwyd gweithdai rheolaidd i Aelodau drwy gydol y flwyddyn ar gyllid llywodraeth leol, rhagdybiaethau ar gyfer y gyllideb, cyllidebau cenedlaethol a rhagolygon economaidd, yn ogystal â phwysau ar wasanaethau, risgiau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor.

- Adolygwyd a defnyddiwyd canllawiau, cyngor, gwybodaeth a phrosesau cenedlaethol er mwyn cefnogi ein cynlluniau. Gan gynnwys Cymdeithas Trysoryddion Cymru, Ymarferwyr Gogledd Cymru, Grŵp Ffioedd Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Dadansoddi Cyllid Cymru, Llywodraeth Ganolog a CLlLC.

Mae gennym broses gyllidebol gynhwysol sy'n sicrhau bod cyllidebau'n cael eu paratoi yn unol â'r canlyniadau a fwriedir:

- Fe wnaethom gynnwys ein budd-ddeiliaid a'r cyhoedd yn ein penderfyniadau gosod y gyllideb trwy ymgynghoriad ar flaenoriaethau'r Cyngor: rydym yn cynnwys budd-ddeiliaid a'r cyhoedd yn natblygiad blaenoriaethau Cynllun y Cyngor, sy'n llywio ein penderfyniadau adnoddau.
- Mae dull partneru busnes cryfach wedi ei sefydlu, a swyddogion ariannol yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli Adrannol gwasanaethau ac yn cyfrannu mwy at gynllunio gwasanaethau. Bydd cynlluniau i ddatblygu modiwl hyfforddi ar reolaeth ariannol ar gyfer deiliaid cyllideb yn cryfhau dealltwriaeth o ragolygon a ragdybiadau a ddefnyddir mewn cynlluniau ac adroddiadau ariannol.
- Er nad yw Cynllun y Cyngor wedi'i gostio, mae blaenoriaethau ariannol, ymrwymiadau a phwysau yn gysylltiedig â blaenoriaethau yn bwydo i mewn i gynigion mewn perthynas â phwysau cyllidebol ac i bennu cyllidebau terfynol. Mae Prif Swyddogion wedi nodi pwysau, ymrwymiadau a blaenoriaethau ariannol ar gyfer eu gwasanaethau, sydd wedi'u cysylltu i flaenoriaethau Cynllun y Cyngor. Dechreuodd adolygiad o Reolaeth Perfformiad Cynllun y Cyngor ar ddiwedd 2023-24 er mwyn gosod targedau blwyddyn 2 yn derbyn yr heriau cyllidebol.
- Mae'r fframwaith monitro cyllideb wedi cael ei gryfhau. Mae dull Partneru Busnes cryfach yn cael ei sefydlu, gyda phresenoldeb rheolaidd yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli Adrannol Gwasanaethau gyda mwy o fewnbwn ariannol wrth fapio prosesau'r gwasanaeth.
- Roedd yr holl gynigion / penderfyniadau ariannol yn destun Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac o Ebrill 2024, Asesiad o Effaith Integredig. Ystyrir y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol trwy'r broses Asesiad o Effaith Integredig. Lliniaru effeithiau wedi'i wreiddio ym mhrosesau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o Effaith Integredig.

**Yn ein hunanasesiad ar gyfer 2022–23, fe wnaethom roi sgôr oren i'r thema hon, oedd yn golygu ein bod wedi dangos perfformiad boddhaol, ond y gallai fod angen buddsoddi a mwy o gapasiti mewn nifer o feysydd allweddol.**

Mae'r isod yn nodi'r meysydd 2023-24 ar gyfer datblygu a gytunwyd yn yr adroddiad 2022-23, y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain a'r penderfyniad i'w dwyn ymlaen ai peidio:

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| Gwella gwydnwch ariannol trwy well ragdybiaethau ariannol a chysylltiadau nes rhwng gwasanaethau a rheolaeth ariannol (o ganlyniad i fwy o bwysau ar gyllidebau gwasanaethau oherwydd lefelau uchel o ddisgwyliadau a galw a chostau cynyddol, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol) *(DLIB) | Mae cynnydd wedi cael ei wneud i wella gwydnwch ariannol ac ymateb i bwysau cynyddol ar gyllidebau gwasanaeth.<br>• Sicrwydd bod agweddau sylfaenol adrodd ariannol yn gadarn, wrth ymateb i feysydd datblygu.<br>• Cafodd gwasanaethau gyda gofynion cyllidebol heriol, eu cefnogi trwy grwpiau tasg a gorffen.<br>• Mae'n parhau i fod yn fater sylweddol yn 2024-25 gan fod yr hinsawdd ariannol yn y sector cyhoeddus yn dal yn arbennig o heriol ar gyfer y dyfodol, gan ystyried yr amcangyfrifon diweddaraf o'r cyllid gan y llywodraeth a'r twf arwyddocaol mewn costau a'r galw am wasanaethau. | Ydi |
| Arfarnu prosesau monitro a chynllunio cyllidebau yn sgil amgylchedd economaidd sy'n dal yn heriol. | Mae'r Cyngor wedi ymateb i amgylchedd economaidd heriol trwy gynllunio a monitro'r gyllideb.<br>• Gwnaed gwelliannau i drefniadau a phrosesau llywodraethu, yn ogystal ag eglurder ac amseroldeb ein dull strategol ar gyfer 2024-25.<br>• Sefydlu Rhaglen Newid i gefnogi darpariaeth gwasanaeth a chynaliadwyedd ariannol dros y ddwy flynedd nesaf. | Na |
| Sicrhau bod gennym fesurau lliniaru ar gyfer y gyllideb er mwyn i gyllideb 23/24 fod yn gytbwys | Roedd sefyllfa derfynol yn 2023-24 yn unol â'r rhagestyniadau a'r strategaeth. | Na |
| Cryfhau trefniadau yn ystod y flwyddyn i ddarogan galw a chostau yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau dan bwysau penodol h.y. gofal cymdeithasol, gwasanaethau technegol a digartrefedd. | Rydym yn parhau i weithio gyda gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y data angenrheidiol ar gael er mwyn galluogi rhagolygon cywir, ynghyd â gwell dealltwriaeth ymysg deiliaid cyllideb o gyllidebau arian cyfyngedig.<br>Yn ogystal, mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod deiliaid cyllideb yn deall y goblygiadau ariannol o unrhyw benderfyniadau a wneir mewn darparu gwasanaeth. | Ydi |

## Ein hasesiad 2023–24: Oren (wedi'i gynnal)

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn gan fod perfformiad yn foddhaol, ond efallai y bydd angen buddsoddi a mwy o gapasiti mewn nifer o feysydd allweddol.

### Cryfderau

- Mae fframwaith llywodraethu ariannol cadarn bob amser wedi bod ar waith. Mae wedi'i wneud yn fwy cadarn i ymateb i sefyllfa economaidd ac ariannol fwy heriol ac mewn ymateb i adolygiad CLlLC.
- Cryfhau trefniadau yn ystod y flwyddyn i ddarogan galw a chostau yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau dan bwysau penodol h.y. gofal cymdeithasol, gwasanaethau technegol a digartrefedd, ac wedi llwyddo i reoli'r Grwpiau Tasg a Gorffen ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd a Thechnegol.
- Perthynas waith gref gyda chyrff ac adrannau allanol wedi parhau.
- Mae perthynas dda wedi parhau i fod gydag aelodau mewn cyd-destun ariannol heriol.
- Rheoli'r sefyllfa derfynol ar gyfer 2023/24 yn llwyddiannus a rheoli pwysau posibl o £23.8m yn ystod y flwyddyn.
- Mae risg ariannol yn rhan o bob asesiad risg.

### Meysydd i'w datblygu

**Wedi'i ddwyn ymlaen**

- Parhau i ddatblygu cydnerthedd ariannol oherwydd gwasgfeydd cynyddol ar gyllidebau gwasanaethau oherwydd disgwyliadau uchel a chynnydd yn y galw a'r costau yng nghyd-destun y setliad is a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru. (*DLIB)
- Cynnal rhagolygon cryf o fewn y flwyddyn o'r galw yn y dyfodol a chostau gwasanaethau lle mae pwysau penodol.

**Newydd**

- Gweithredu'r Rhaglen Newid i:
    - Cefnogi cyflawniad cyllideb gynaliadwy drwy ddarparu rhaglen ddwy flynedd sy'n cynnal ac yn gweithredu lefel o arbedion y cytunwyd arnynt a ddiffinnir yn y CATC (£28 miliwn ar hyn o bryd) a'r arbedion na ddyrannwyd o £1.8 miliwn yng nghyllideb 24/25.
    - Cynnal sefydlogrwydd y Cyngor, sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gyda chronfeydd wrth gefn priodol a dyluniad sefydliadol sy'n addas i'r diben. (Cylch Gorchwyl Rhaglen Newid)

# Thema: Trefniadau Rheoli Risg

Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Dylid ystyried risgiau a mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r holl weithgareddau gwneud penderfyniadau. [1]

Rydym yn gwerthuso ac yn monitro rheoli risg a'n trefniadau rheoli risg yn rheolaidd ac yn adrodd ar y rhain yn rheolaidd:

- Fe wnaethom adrodd yn gynhwysfawr ar ein risgiau – cafodd cofrestrau risg eu diweddaru o leiaf bob chwarter a'u hadrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Arweiniol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn.
- Mae ein trefniadau rheoli risg yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob 5 mlynedd (y Polisi Rheoli Risg cyfredol (2020–25)) ac mae'r Canllawiau ategol yn cael eu cadw o dan adolygiad a'u diweddaru yn ôl yr angen. Cynhelir adolygiad blynyddol a pharhaus drwy waith adolygu'r fframwaith llywodraethu sy'n llywio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a chan y Pennaeth Archwilio Mewnol drwy'r Farn Flynyddol.
- Fe wnaethom ddiweddaru ein polisi risg er mwyn mabwysiadu matrics risg 5 x 5 newydd er mwyn cynnwys meini prawf mwy manwl ac i fod yn unol â sefydliadau eraill.
- Cyflawnwyd adroddiadau ychwanegol mewn perthynas â meysydd risg a nodwyd yn ystod y flwyddyn: cafodd yr angen i wella Rheoli Contractau (Fframwaith Llywodraethu Iechyd a Diogelwch) ei nodi fel mater sylweddol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23. Adroddiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Arweiniol, adroddir ar Iechyd a Diogelwch fel risg gorfforaethol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Arweiniol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith, a cheir adroddiadau ychwanegol i'r Bwrdd Gweithredol yn ôl yr angen. Gan arwain at welliant amlwg a cheir tystiolaeth bod gweithdrefnau, cydymffurfiaeth a hyfforddiant wedi gwella.

Mae gennym system rheoli risg gadarn ac integredig, sy'n cynnwys atebolrwydd clir am risgiau:

- Yn 2023 fe wnaethom gaffael system reoli Perfformiad, Risg a Phrosiectau integredig ('Insight') a gweithredu modiwl rheoli risg yn chwarter 3 2023-24. Mae hyn wedi gwella effeithlonrwydd ac ansawdd adroddiadau rheoli risg.
- Mae'r Cyngor yn cadw cofrestrau risg ar gyfer adrannau, blaenoriaethau'r Cyngor, prosiectau a phartneriaethau.
- Mae perchnogaeth ac atebolrwydd ar gyfer holl risgiau wedi'u dynodi'n glir i berchnogion risg dynodedig.
- Mae risgiau corfforaethol yn cael eu neilltuo i Brif Swyddog cyfrifol; Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am reoli risgiau eu maes gwasanaeth.
- Mae ein prosesau yn gofyn am drafod risgiau gyda swyddogion priodol ac o fewn timau rheoli adrannol.

- Mae 'Insight' yn cefnogi sicrwydd o amgylch adolygiadau gweithredol o risgiau - bellach mae angen i berchnogion risg osod statws risg 'Goddef' neu 'Liniaru' ar gyfer pob risg bob chwarter ac mae mesurau lliniaru ychwanegol ('camau gweithredu risg') wedi'u neilltuo'n glir i swyddogion enwebedig o fewn 'Insight.'
- Fe gynhaliom her adolygiad cymheiriaid blynyddol Prif Swyddogion o'n cofrestrau risg er mwyn sicrhau dull cyson a bod sgorio risgiau yn gyson ar draws y gwasanaethau.
- Adroddom yn flynyddol ar Wrth-lygredd a Thwyll i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac roedd diweddariadau mewn adroddiadau interim archwilio mewnol yn dangos mai prin yw'r dystiolaeth bod twyll a llygredd yn broblemau mawr ar hyn o bryd. Mae unrhyw bryderon o ran dylanwadu ar benderfyniadau a chamddefnyddio penderfyniadau yn cael eu harchwilio gan ddefnyddio prosesau llygredd a thwyll sefydledig.
- Cafodd dull sy'n seiliedig ar risg ei ddefnyddio yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i ddatblygu'r Cynllun Archwilio Mewnol - gan ystyried fframwaith llywodraethu'r Cyngor, cofrestrau risg a rheoli ac asesiad yr Adain Archwilio Mewnol ei hun o risgiau ariannol a llywodraethol y Cyngor. Barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol oedd bod fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor yn y rhan fwyaf o feysydd a archwiliwyd yn gyffredinol ddigonol ac effeithiol i gyflawni amcanion y Cyngor.
- Mae polisïau rheoleiddiol, gweithdrefnau a chanllawiau cyfredol ar gael i reoli risgiau ynghlwm â llywodraethu gwybodaeth a rheoli data, yn cynnwys y Llawlyfr Llywodraethu Gwybodaeth sydd ar y fewnrwyd.

Rydym yn ystyried ac yn mynd i'r afael â risg fel rhan o'n holl weithgareddau gwneud penderfyniadau ac rydym yn sicrhau bod risgiau i gyflawni ein blaenoriaethau yn cael eu darganfod:

- Mae risgiau adrannol sy'n gysylltiedig â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu cynnwys yng nghofrestr risg blaenoriaethau'r Cyngor, ac yn cael eu hadolygu gan Fyrddau Blaenoriaeth yn rhan o'u Cylch Gorchwyl.
- Mae nodi a rheoli risg wedi'i wreiddio yn y broses rheoli prosiectau a'r broses cymeradwyo Partneriaeth, ac mae wedi'i gynnwys yn y prosesau adrodd sefydledig sy'n cefnogi'r rhain.
- Mae trefniadau llywodraethu yn cytuno i Raglen Newid y Cyngor, (a sefydlwyd ar ddiwedd 2023-24 i gefnogi darpariaeth gwasanaeth a chynaliadwyedd ariannol yng nghyd-destun pwysau ariannol parhaus), wedi'i ddylunio er mwyn sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig ag effaith y cynigion ar ddarparu ein blaenoriaethau, yn cael eu canfod yn gynnar a'u hystyried yn llawn fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.
- Mae'r Tîm Caffael yn cefnogi adrannau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau caffael y Cyngor. Mae'r Tîm yn cefnogi adrannau gyda threfniadau rheoli contract parhaus, gan gynnwys canfod risgiau, ac mae prosesau tendro yn cynnwys gwiriadau o ran sefydlogrwydd ariannol y cwmnïau.
- Mae trefniadau Llywodraeth Corfforaethol a Rheoli Risg wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Sefydlu Aelodau a hyfforddiant craidd

**Yn ein hunanasesiad 2022–23, fe wnaethom roi sgôr felen i'r thema hon, oedd yn golygu ein bod yn dangos perfformiad da a bod gennym fwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.**

Mae'r isod yn nodi'r meysydd 2023-24 ar gyfer datblygu a gytunwyd yn yr adroddiad 2022-23, y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain a'r penderfyniad i'w dwyn ymlaen ai peidio:

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| Gweithredu'r System Rheoli Risg a Pherfformiad newydd i wella effeithlonrwydd ac ansawdd yr adrodd ar reoli risg. | Gweithredwyd System Reoli Perfformiad a Risg yn ystod 2023-24 a chwblhawyd adroddiadau risg trwy'r system ar gyfer chwarter 3 ymlaen. | Na |
| Sicrhau bod risg yn cael ei hystyried yn rhan o fesurau lliniaru'r gyllideb sy'n cael eu gwneud i alluogi cyllideb gytbwys at 23/24. | Ystyriwyd risg fel rhan o'r broses rheoli cyllideb yn ystod y flwyddyn. Cyflawnwyd cyllideb gytbwys. Canfod risg wedi'i adeiladu i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Rhaglen Newid. | Na |

## Ein hasesiad 2023–24: Gwyrdd (wedi gwella)

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn gan fod perfformiad yn gyson dda heb fawr ddim meysydd i'w datblygu

### Cryfderau

- Fe wnaethom adrodd yn gynhwysfawr ar ein risgiau – cafodd cofrestrau risg eu diweddaru o leiaf bob chwarter a'u hadrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Arweiniol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn.
- Mae gweithredu 'Insight' wedi gwella sicrwydd o ran adolygiad actif o risgiau a rheoli mesurau lliniaru.
- Llinellau clir o atebolrwydd ar gyfer perchnogaeth risg a chamau risg ychwanegol er mwyn lliniaru risgiau ymhellach.
- Mae adrodd yn flynyddol ar Wrth-lygredd a Thwyll i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dangos mai prin yw'r dystiolaeth bod twyll a llygredd yn broblemau mawr ar hyn o bryd.
- Mae adolygiad cynhwysfawr wedi gwella cadernid ein prosesau rheoli a lliniaru risgiau yn sylweddol. Gan gynnwys categoreiddio yn fwy manwl y risgiau a chau risgiau sydd wedi cael eu lliniaru neu nad ydynt bellach yn berthnasol.

### Meysydd i'w datblygu

**Newydd**

- Sicrhau fod y risgiau sy'n gysylltiedig gydag effaith y cynigion Rhaglen Newid ar ddarparu ein blaenoriaethau, yn cael eu canfod yn gynnar a'u hystyried yn llawn fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

# Thema: Cynllunio'r Gweithlu

Mae'n rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r capasiti i gyflawni ei swyddogaethau ei hun a gofalu bod polisïau ar waith i sicrhau bod ei reolaeth yn medru gweithredu'r sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae awdurdod yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen datblygu ei gapasiti drwy'r amser, yn ogystal â sgiliau a phrofiad arweinyddiaeth aelodau unigol o staff[1]

Mae gennym gynllun gweithlu effeithiol sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod gennym y gallu a'r sgiliau angenrheidiol:

- Mae'r Cyngor yn dal i weithio i sicrhau bod Wrecsam yn 'Gyflogwr o Ddewis' mewn marchnad dra chystadleuol.
- Rydym yn deall yr heriau o ran recriwtio staff a'r effaith bosib' ar ddarparu gwasanaethau. Rydym wedi gweithredu Strategaeth Pobl ddiwygiedig sy'n cydnabod mai ein gweithlu yw ein hased mwyaf a'r adnodd pwysicaf wrth gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun y Cyngor. Mae ein Strategaeth, a'n prosesau cynllunio'r gweithlu blynyddol a hwyluswyd gan AD, yn cynnwys cynllunio etifeddiaeth.
- Rydym yn parhau i ganfod meysydd gwasanaeth lle mae heriau recriwtio a chadw, ac yn datblygu ffyrdd arloesol a hirdymor i fynd i'r afael â'r rhain: gan gynnwys dull Meithrin Staff ein Hunain, adolygiad o gyflogau a buddion, a chanfod digwyddiadau lle mae angen cymryd camau pendant ac uniongyrchol i annog ceisiadau a lleihau trosiant.
- Rydym yn defnyddio gwybodaeth monitro gweithwyr a'n proses cynllunio gweithlu i adolygu effeithiolrwydd a thegwch ein polisïau a'n harferion cyflogaeth, i'n helpu i nodi materion cydraddoldeb allweddol gyda gwasanaethau ac i adolygu a yw ein gweithlu'n adlewyrchu'r gymuned leol. Rydym yn cymryd camau i wella ein prosesau monitro cydraddoldeb er mwyn targedu camau gweithredu'n well i hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithlu.

Rydym yn cydnabod yr angen i 'wneud mwy gyda llai' ac rydym yn newid ein trefniadau gwaith i gefnogi hyn:

- Rydym wedi cydnabod fod angen sicrhau y dylunnir y Rhaglen Newid, a sefydlwyd i gefnogi darpariaeth gwasanaeth a chadernid ariannol, mewn ffordd sy'n ystyriol o'r pwysau o safbwynt recriwtio a chadw staff, a'i fod yn gallu canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth lle mae'r prif bwysau, yn ôl y gofyn.
- Mae blaenoriaeth y Cyngor o 'Gynnal Gweithlu Tra Medrus a Brwdfrydig sy'n Canolbwyntio ar Ddarparu Gwasanaethau' yn sicrhau ein bod wedi ymrwymo i fod yn 'Gyflogwr Delfrydol' i ddenu'r bobl iawn gyda'r sgiliau a meddylfryd iawn i ddarparu ein gwasanaethau.
- Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ffyrdd modern o weithio gan drawsnewid arferion gweithio trwy ddarparu gwell amgylcheddau gwaith, mabwysiadu datrysiadau digidol a thechnoleg newydd, a gwneud ein gwaith yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor.

- Rydym yn cydnabod yr angen i ddysgu, sefydlu arferion newydd a chefnogi arloesedd a newid pellach, er mwyn adeiladu cadernid a gwneud gwelliannau cynaliadwy parhaus yn y ffordd rydym yn gweithio.

Mae gennym fframwaith i sicrhau bod gennym y bobl sydd â'r sgiliau cywir, y cymwysterau priodol a'r meddylfryd priodol ac rydym yn sicrhau bod gan y gweithlu ymwybyddiaeth gref o lywodraethu da a rheolaeth y gyfraith ac ymrwymiad iddynt:

- Mae fframwaith o bolisïau yn bodoli i gefnogi ein disgwyliadau o'n gweithlu – mae hyn yn cynnwys trefniadau cynefino ac Adolygu a Datblygu Perfformiad (PDR), sy'n cynnwys gwerthoedd a chymwyseddau ymddygiadol.
- Rydym yn cydnabod yr ngen i sicrhau bod canolbwynt parhaus ar gefnogi rheolwyr wrth ddehongli a chydymffurfio â gweithdrefnau a pholisïau cytunedig
- Rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau â gwaith i sicrhau bod cyfnodau cynefino, sesiynau Adolygu a Datblygu Perfformiad a hyfforddiant yn cael eu defnyddio'n effeithiol, ac i wella adrodd ar y rhain. Mae data cwblhau yn cael ei rannu gyda'r Prif Swyddogion er mwyn targedu cymorth.
- Mae ein cynnig hyfforddiant yn cynnwys cyfleoedd datblygu o lefel mynediad i lefel gradd.
- Rydym wedi dynodi rhaglen o hyfforddiant craidd a modiwlau e-ddysgu llywodraethu allweddol ond deallwn fod angen gwella trefniadau i sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol wedi'i gwblhau'n foddhaol ar draws y gweithlu.
- Mae polisïau gweithlu i recriwtio a dethol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn annog ymgeiswyr o bob cymuned, ac mae hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o'n rhaglen datblygu'r gweithlu.
- Er mwyn cefnogi canfod unrhyw heriau posibl yn gynnar, mewn perthynas â'r gweithlu, cynhelir cyfarfodydd misol rheolaidd rhwng Adnoddau Dynol a'r Undebau Llafur er mwyn casglu gwybodaeth ysgafn. Mae hyn yn rhoi llwyfan i drafod problemau posibl, gweithredu ymyraethau yn gynnar a dechrau datrys problemau cyn i bryderon posibl ddatblygu.

Rydym wedi ymrwymo i iechyd a lles ein gweithlu:

- Derbyniom wobr Aur Asesiad Iechyd Corfforaethol yn 2023 (estyniad 12 mis i'r statws Aur blaenorol).
- Mae'r Strategaeth Pobl ddiwygiedig, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol ym Mawrth 2024, yn tanategu ymrwymiad y Cyngor i iechyd a lles gweithwyr, yn ogystal â datblygu a meithrin ein talent ein hunain fel cydrannau hanfodol o gynllunio etifeddiaeth.
- Mae absenoldeb salwch yn cael ei fonitro gan ein Huwch Dîm Arweinyddiaeth a'n pwyllgor craffu drwy adroddiadau monitro'r gweithlu. Mae cyfraddau absenoldeb salwch adrannol yn cael eu hadolygu, gan fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi.

- Mae'r canran o ddyddiad a gollir i absenoldeb salwch yn uwch mewn rhai adrannau na'i gilydd. Gall hyn fod am amrywiaeth o resymau ac mae mentrau iechyd a lles yn cael eu targedu'n wahanol mewn gwasanaethau gwahanol er mwyn adlewyrchu amrywiaeth ein gweithlu.
- Mae ein cyfradd absenoldeb (nifer y dyddiau a gollir fesul gweithiwr) ar gyfer y cyfnod hwn ychydig yn is (12.6 ar gyfer 23-24) na'r un cyfnod y llynedd (12.7). Mae nifer yr ymadawyr wedi gostwng gan 100, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o gynyddu yn 2024-25 yn sgil ymateb i heriau'r gyllideb.
- Mae gostyngiad wedi bod yn y gost o weithwyr asiantaeth yn y Gwasanaethau Amgylchedd a Thechnegol a Gofal Cymdeithasol.
- Roedd absenoldeb yn uchel ar gyfer straen, iselder a gorbryder yn ogystal â chyhyrysgerbydol o'i gymharu â rhesymau eraill. Mae hyn wedi cael ei gydnabod gan y Cyngor, ac mae mentrau cefnogi wedi cael eu rhoi mewn lle, gan gynnwys; Cefnogwyr Iechyd Meddwl, rhaglen gefnogi gweithwyr a mynediad at gwnsela.

**Yn ein hunanasesiad 2022–23, fe wnaethom roi sgôr felen i'r thema hon, oedd yn golygu ein bod yn dangos perfformiad da a bod gennym fwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.**

Mae'r isod yn nodi'r meysydd 2023-24 ar gyfer datblygu a gytunwyd yn yr adroddiad 2022-23, y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain a'r penderfyniad i'w dwyn ymlaen ai peidio:

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| Gwella recriwtio a chadw staff – yn enwedig yn y gwasanaethau sy'n cael trafferthion recriwtio a chadw staff. (*DLIB) | Cynnydd da wedi cael ei wneud, fodd bynnag mae pwysau mewn rhai meysydd gwasanaeth yn parhau.<br>• Cymeradwyo Strategaeth Pobl sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer recriwtio yn y dyfodol.<br>• Hyrwyddo gweithio'n hyblyg/ffyrdd modern o weithio er mwyn sicrhau bod Cyngor Wrecsam yn 'Gyflogwr Delfrydol' mewn marchnad hynod o gystadleuol.<br>Ail-fframio o ran sicrhau bod y Rhaglen Newid wedi'i ddylunio i reoli'r pwysau a roddir ar recriwtio a chadw. | Ydi<br>(Ail-fframio) |
| Gweithio gyda'n partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i nodi lle gall sefydliadau ddefnyddio eu harferion recriwtio i alluogi gweithleoedd amrywiol a llewyrchus. (Cynllun Lles y BGC). | Nid oes gwaith datblygu yn y maes hwn ar hyn o bryd, o ganlyniad i flaenoriaethu ailstrwythuro mewnol ac adolygu Strategaeth Pobl. | Ydi |
| Gwella trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer cwblhau hyfforddiant gorfodol ar draws y gweithlu. (Gweler hefyd y thema Arweinyddiaeth a Diwylliant Sefydliadol) | Roedd archwiliad mewnol o'r tîm Datblygu'r Gweithlu wedi adrodd sicrwydd 'Oren' ym Mai 2023 mewn perthynas â'r angen i wella trefniadau monitro er mwyn darparu sicrwydd bod yr holl hyfforddiant gorfodol wedi cael eu cwblhau yn foddhaol ar draws y gweithlu. Mae cynnydd wedi cael ei wneud a bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro gan archwilio mewnol. | Na |
| Gwella ein data monitro cydraddoldeb yn y gweithlu a pha mor amserol rydym yn adrodd arno. | Ychydig o gynnydd yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn: unwaith i'r gwaith dechreuol ar y system AD gael ei gwblhau, byddwn yn ystyried sut i wella ac adrodd ar ddata monitro cydraddoldeb. | Ydi |

## Ein hasesiad 2023-24 - Melyn (wedi'i gynnal)

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd y gallwn ddangos fod perfformiad yn dda a bod mwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.

### Cryfderau

- Mae blaenoriaeth newydd y Cyngor o 'Gynnal Gweithlu Tra Medrus a Brwdfrydig sy'n Canolbwyntio ar Ddarparu Gwasanaethau' yn sicrhau ein bod wedi ymrwymo i fod yn 'Gyflogwr Delfrydol' i ddenu'r bobl iawn gyda'r sgiliau a meddylfryd iawn i ddarparu ein gwasanaethau.
- Rydym wedi gweithredu Strategaeth Pobl ddiwygiedig sy'n cydnabod mai ein gweithlu yw ein hased mwyaf a'r adnodd pwysicaf wrth gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun y Cyngor ac yn cydnabod bod datblygu a meithrin ein talent ein hunain yn gydrannau hanfodol o gynllunio etifeddiaeth.
- Mae'r angen i ganfod a gweithredu er mwyn cefnogi gwasanaethau sy'n profi heriau o ran recriwtio a chadw, wedi cael ei gydnabod a'i gefnogi gan arweinyddiaeth y Cyngor. Rydym wedi mabwysiadu dull arloesol a hyblyg i ymateb i'r heriau hyn.
- Mae ymrwymiad clir y Cyngor i gefnogi iechyd a lles yn y gweithle yn hanfodol i'n Strategaeth Pobl, ac mae hyn yn amlwg ar draws adolygiadau allanol a chynnal y Wobr Aur Safon Iechyd Corfforaethol yn 2023.
- Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ffyrdd modern o weithio gan drawsnewid arferion gweithio trwy ddarparu gwell amgylcheddau gwaith, mabwysiadu datrysiadau digidol a thechnoleg newydd, a gwneud ein gwaith yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor.
- Mae gan y Cyngor adnoddau, polisïau a phrosesau da ar waith i gefnogi safonau ymddygiad uchel.

### Meysydd i'w datblygu

**Wedi'i ddwyn ymlaen**

- Sicrhau bod y Rhaglen Newid, a sefydlwyd i gefnogi darpariaeth gwasanaeth a chadernid ariannol, yn ystyried y pwysau o safbwynt recriwtio a chadw staff o fewn y sefydliad, a'i fod yn gallu canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth lle mae'r prif bwysau, yn ôl y gofyn. (DLIB*)

**Newydd**

- Sicrhau bod y Rhaglen Newid, a sefydlwyd i gefnogi darpariaeth gwasanaeth a chadernid ariannol, yn ystyried y pwysau o safbwynt recriwtio a chadw staff o fewn y sefydliad, a'i fod yn gallu canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth lle mae'r prif bwysau, yn ôl y gofyn. (DLIB*) areas that become a pressure point. (AGS*)

# Thema: Asedau

Mae llywodraeth leol yn sicrhau bod asedau'n cael eu rheoli'n dda er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol a sicrhau gwerth am arian. Mae rheoli asedau yn ganolog i flaenoriaethau llywodraeth leol, a chaiff asedau eu hadolygu'n rheolaidd a gwneir argymhellion ar gyfer gwella. Ystyrir anghenion gwasanaeth y boblogaeth leol heddiw ac yn y dyfodol yn rhan o strategaeth rheoli asedau briodol.[1]

Gwerth asedau'r Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023 yw £536 miliwn, yn unol â Datganiad Cyfrifon 2022/23 (Nodiadau 20 a 22). Mae'r ffigwr hwn yn ymwneud ag asedau Cronfa'r Cyngor ac mae'n cynnwys tir ac adeiladau, asedau cymunedol, asedau dros ben, asedau sy'n cael eu hadeiladu, asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu ac asedau isadeiledd. Nid yw'n cynnwys anheddau'r Cyngor, asedau treftadaeth na cherbydau, peiriannau a chyfarpar.

Gwerth anheddau'r Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023 yw £402 miliwn, yn unol â Datganiad Cyfrifon 2022/23 (Nodyn 20).Ffigyrau diweddaraf sydd ar gael.

I gael eglurhad pellach ynglŷn â sut y caiff y gwerth hwn ei gyfrif, gweler Atodiad 2 – Rhestr Dermau.

## Asedau corfforaethol

Rydym yn cefnogi darparu gwasanaethau drwy sicrhau bod strategaethau rheoli asedau yn cael eu llywio gan anghenion gwasanaethau a gofynion gwasanaethau yn y dyfodol:

- Mae Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor 2023-28 wedi disodli'r Strategaeth Tir ac Adeiladu Corfforaethol a'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol. Cafodd datblygiad y strategaeth newydd ei gefnogi a'i adolygu gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth; mae'n cyfeirio at argymhellion 'Llamu Ymlaen' Archwilio Cymru 2022 ar gyfer rheoli ein hasedau corfforaethol, ac yn adlewyrchu blaenoriaethau datgarboneiddio.
- Mae'r strategaeth yn dangos y rheolaethau, adnoddau, prosesau a gweithdrefnau sydd mewn lle i reoli'r ystâd yn effeithiol, gan gynnwys prosesau ar gyfer gwaredu asedau. Mae'n dangos sut mae'r Cyngor yn adolygu, rhesymoli, cynnal a moderneiddio ei ystâd er mwyn adlewyrchu ei flaenoriaethau ac i sicrhau bod yr ystâd yn addas i'r diben.
- Mae'r strategaeth yn alinio gyda Chynllun y Cyngor 2023-28, a ddatblygwyd yn defnyddio Asesiad Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel ffynhonnell allweddol ar gyfer data ac anghenion y boblogaeth, gan sicrhau dull 'Edefyn Aur'.
- Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ac arwyddocâd y mae portffolio eiddo'r Cyngor yn chwarae yn y gweithgareddau mae'n ei gyflawni, ac rydym yn gweithio i sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud o ran ein hasedau ac i sicrhau bod penderfyniadau i fuddsoddi a gwella asedau yn cael eu gwneud mewn modd cadarn a thryloyw.
- Rydym yn gweithio ar y cyd â chonsortia cenedlaethol ac yn archwilio opsiynau'n rheolaidd i gydweithio â'n partneriaid a/neu rannu asedau. Ystyrir hyn o safbwynt gwella gwasanaeth, yn ogystal â safbwynt ariannol - er enghraifft, y dull aml-asiantaeth i'r 'Hwb Lles' yn Adeiladau'r Goron.

Rydym wedi gwella ansawdd ein gwybodaeth am asedau a'n cymorth i adrannau adolygu eu cynlluniau rheoli asedau:

- Mae pob adran yn llunio cynllun rheoli asedau gwasanaeth, sy'n nodi angen y gwasanaeth am ei asedau ac sy'n ganlyniad her fewnol ac adolygiad o opsiynau amgen ar gyfer defnyddio asedau a darparu gwasanaeth o fewn ein fframwaith cyllidebol llym.
- Rydym wedi cwblhau gwaith ailstrwythuro rheolaeth a thîm, sydd bellach yn well i gefnogi adrannau i reoli eu cynlluniau rheoli asedau. Mae cydnabyddiaeth bod agen llenwi rolau hanfodol o fewn y strwythur newydd gyda heriau recriwtio rhanbarthol yn effeithio ar ein gallu i recriwtio o fewn rhai o'r swyddi hyn. Mae achos busnes wedi cael ei gyflwyno ar gyfer cyllid ar gyfer adnoddau cyfreithiol ychwanegol ar gyfer gwaith prydlesu a gwaredu.
- Mae cronfa ddata Rheoli Asedau unigryw'r Cyngor yn cynnwys manylion cynhwysfawr am yr holl asedau tir ac eiddo mae'r Cyngor yn eu rheoli ac mae'n galluogi'r Cyngor i reoli perfformiad y portffolio asedau, sylwi ar dueddiadau a gweld unrhyw eiddo sy'n tanberfformio.
- Mae trefniadau llywodraethu newydd o fewn y Strategaeth Rheoli Asedau'n sicrhau ein bod yn adolygu ac yn adrodd ar weithrediadau, perfformiad a defnydd o asedau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol, gan gynnwys cefnogi dull cyson ar draws pob adran.

Rydym yn cydnabod yr angen i gael y gwerth gorau am arian ac i weithio tuag at wella cynaliadwyedd hirdymor a lleihau'r defnydd o ynni:

- Mae gwerth am arian a'r defnydd gorau o adnoddau'n cael ei gefnogi gan reolau caffael a systemau rheoli newydd, yn cynnwys rheoli llogi a chamau gweithredu ar ôl-ddyledion rhent.
- Rydym wedi gwella ein perfformiad asedau gwag corfforaethol, ac adeiladau wedi'u hailbwrpasu, er enghraifft yr Hen Lyfrgell ar gyfer y Ganolfan Ddiwylliant newydd.
- Mae gennym fframweithiau contract ar waith sy'n cynnwys mecanweithiau i adolygu prisiau gan ddefnyddio mynegeion a gydnabyddir yn genedlaethol – fodd bynnag mae'r cynnydd sydyn diweddar mewn deunyddiau adeiladu wedi golygu bod rhai contractwyr wedi gadael y fframweithiau. Mae addasiadau pris bellach yn cael eu hystyried ar amlder byrrach i helpu i liniaru'r risgiau hyn i'r gadwyn gyflenwi.
- Mae gostyngiad o £300,000 yn y Gyllideb Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw 2024-25 yn adlewyrchu'r gohiriad o gam pump (Neuadd y Dref) yn y prosiect Adolygiad Gofod Swyddfa, yn dilyn cwblhau cam pedwar (Stryt y Lampint a'r Hen Lyfrgell).
- Mae ein gwaith Rheoli Cyfleusterau'n parhau i gydymffurfio'n statudol.
- Rydym yn sicrhau adennill costau o holl ffrydiau gwaith proffesiynol, megis caffael, trwyddedau gwaredu a phrydlesu a chytundebau cyfreithiol eraill megis hawddfreintiau, a chytundebau fforddfraint lle bo'n gymwys; a sicrhau ein bod ni'n cyflawni rhent y farchnad sy'n gysylltiedig â'r ystâd fasnachol, o fewn cyd-destun cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r dull hwn wedi'i gipio yn y Cynllun Dirprwyo.

- Rydym yn cydnabod yr angen i ystyried nid yn unig adnoddau ariannol a diriaethol o ran gwerth am arian a'r defnydd gorau o adnoddau: rhaid ystyried ymrwymiad y Cyngor i gyfrannu at yr agenda ddatgarboneiddio genedlaethol (mae adeiladau yn un o'r pedair thema allweddol yng Nghynllun Datgarboneiddio'r Cyngor) ym mhob penderfyniad a strategaeth ac mae wedi'i gynnwys yn Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor.

Mae ein rheolaethau llywodraethu'n dda, ond rydym yn cydnabod bod cyfleoedd i wella eglurder ynghylch ein penderfyniadau:

- Mae penderfyniadau am asedau yn aml yn ddadleuol ac mae risg i enw da'r Cyngor os nad yw ein prosesau'n glir ac yn ddealladwy i aelodau etholedig, y cyhoedd a'n budd-ddeiliaid. Mae'r Strategaeth newydd yn cynnwys adran ar brosesau gwneud penderfyniadau ac ymgynghori, a bydd trefniadau llywodraethu newydd yn sicrhau ein bod yn adolygu ac yn adrodd ar weithrediadau, perfformiad a defnydd o asedau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol. Gan gynnwys cefnogi dull cyson ar draws adrannau.

## Asedau'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

Rydym yn cefnogi darparu gwasanaethau drwy sicrhau bod strategaethau rheoli asedau yn cael eu llywio gan anghenion gwasanaethau a gofynion gwasanaethau yn y dyfodol:

- Mae rheolaeth effeithiol o'n stoc tai yn cefnogi blaenoriaeth y Cyngor 'Mae Wrecsam yn Lle Teg a Diogel' i sicrhau bod pobl, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael mynediad at y tai cywir.
- Ar hyn o bryd mae'r Strategaeth Tai Lleol 2018-23 yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer tai a gwasanaethau yn ymwneud â thai ac ar gyfer diwallu'r galw ac angen am dai fel y nodir gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Cafodd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ei gynhyrchu yn 2015 a'i ddiweddaru yn 2017. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn y broses o gael ei ail-ysgrifennu, gan ddefnyddio'r templed ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad a'r pecyn gwaith Excel ar gyfer cyfrifo'r galw yn y dyfodol, sydd wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Rhaid ei gwblhau eleni a bydd yn para am 5 mlynedd. Bydd yn hysbysu'r Strategaeth Dai Newydd, sydd angen ei adolygu eleni.
- Ni yw'r un o'r awdurdodau lleol sy'n cadw'r stoc fwyaf yng Nghymru, ac ym mis Tachwedd 2023 roedd stoc dai'r Cyngor yn cynnwys oddeutu 11,071 eiddo.
- Mae ein Polisi Dyraniadau Tai'n sicrhau bod llety'n cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion tai pob grŵp mewn cymunedau lleol ac rydym yn casglu data monitro cydraddoldeb i gefnogi hyn. Ein nod yw gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai drwy ddyrannu eiddo anghenion cyffredinol i ymgeiswyr y mae maint eu haelwyd yn cyfateb orau i faint yr eiddo.
- Cymeradwywyd ein cynllun busnes Cyfrif Refeniw Tai yn 2023-24, ac mae'r cynllun yn dangos sut fyddwn yn cynnal ein stoc dai a Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Rydym wedi cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 1 ac mae cynnal y safon hon bellach wedi'i sefydlu. Mae SATC 202, a ryddhawyd yn Hydref 2023, yn cyfarwyddo buddsoddiad yn y dyfodol o ran targedau heriol mewn perthynas â datgarboneiddio a gwres

fforddiadwy, a'r gofyniad i newid cydrannau unigol (e.e. ceginau ac ystafelloedd ymolchi) o fewn eiddo ar adegau priodol.  Mae buddsoddiad yn destun cyllid o fewn Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor. Mae cynlluniau i gyflawni SATC 2023 yn cael eu datblygu er mwyn cyflawni hyn ar y cyd â chynlluniau Sero Net ar gyfer y dyfodol. Rydym yn cydnabod yr her yn yr hinsawdd ariannol bresennol ac yn rheoli hyn.

Rydym yn cymryd camau i wella ansawdd ein gwybodaeth am asedau a'n prosesau cynllunio:

- Cafodd system meddalwedd rheoli asedau newydd (Asprey) ei gaffael yn 2023-24 a fydd yn gyrru ein rhaglen a chynlluniau cyflawni yn y dyfodol, gan gynnwys oes bywyd cydrannau (ceginau ac ystafelloedd ymolchi). Mae'r system newydd yn cynnig dull integredig, hyblyg ac sy'n hawdd ei ddeall ar gyfer ein swyddogion a'n deiliaid contract. Bydd gweithredu'r system newydd yn digwydd yn 2024-25.
- Rydym wedi sicrhau dull corfforaethol cyson i reoli asedau ar draws gwasanaethau trwy sicrhau bod y ddwy system TGCh rheoli asedau (asedau corfforaethol a stoc dai domestig y Cyngor) yn cael eu tanategu gan yr un egwyddorion.
- Mae ein system rheoli asedau bellach yn cynnwys elfen ddatgarboneiddio i'n cefnogi ni i weithio tuag at Sero Net.

Rydym yn cydnabod yr angen i gael y gwerth gorau am arian ac i weithio tuag at wella cynaliadwyedd hirdymor a lleihau'r defnydd o ynni:

- Mae'r tîm tai yn gweithio'n agos gyda swyddogion Caffael Corfforaethol ar dendro a diweddaru contractau i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae dogfennau contractau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â hynny i geisio cael y gwerth gorau am arian ac i wneud gwelliannau gwasanaeth.
- Rydym wedi symud ein ffocws ar fesurau atal er mwyn cefnogi deiliaid contract i gadw eu cartrefi mewn cyflwr da (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at eu hiechyd a lles), yn hytrach na gorfodi.
- Mae'r adran wedi buddsoddi'n sylweddol ar adnewyddu eiddo gwag dros y 6-7 mlynedd diwethaf, ac mae hyn wedi gwella amseroedd cwblhau ar gyfer ein rhaglen adnewyddu eiddo gwag. Mae eiddo gwag wedi lleihau bron 50% yn y 2 flynedd ddiwethaf.  Ar hyn o bryd mae hyn oddeutu 1% o'n stoc.  Eleni, bydd £11 miliwn arall yn cael ei fuddsoddi i eiddo gwag.
- Mae nifer fechan o eiddo (10) wedi derbyn gwaith adnewyddu llawn gan ddefnyddio cyllid Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru.  Rhagwelwn y byddwn yn cynyddu'r ffigyrau hyn o un flwyddyn i'r llall yn destun cyllid.  Mae gan yr eiddo peilot hwn bellach Dystysgrif Perfformiad Ynni Statws A, gan ddynodi sgôr ynni Gweithdrefn Asesu Safonol rhwng 92 a 100. Mae cynnydd cadarnhaol yn parhau i gael ei wneud hyd yma. Mae gan ein stoc dai sgôr ynni Gweithdrefn Asesu Safonol gyfartalog o 72 (2023-24).
- Mae rhaglen SATC wedi'i defnyddio i gefnogi gwerth cymdeithasol/buddion cymunedol a defnyddir ein contractau i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn cymunedau.

- Deddf Tai ar Osod - rhaid i ni gydymffurfio â holl agweddau'r ddeddf. Mae gwaith yn parhau gydag agweddau'r ddeddf, e.e. cyfatebiaeth gyda deiliaid contract.

Rydym yn adrodd yn rheolaidd ar ba mor dda rydym yn rheoli ein stoc tai a'r cyllid cysylltiedig:

- Mae ein hadroddiadau yn cynnwys sut mae chwyddiant a chostau uwch wedi effeithio ar ein Cyfrif Refeniw Tai a bod ein ffocws ar yr angen i gynnal darpariaeth gwasanaeth o safon drwy'r cyfnod ariannol heriol hwn.
- Rydym yn adrodd i Bwyllgor Craffu Cartrefi a'r Amgylchedd y Cyngor yn ôl yr angen, ac yn cyflwyno datganiadau chwarterol a blynyddol i Lywodraeth Cymru.
- Rydym yn paratoi adroddiadau perfformiad cynhwysfawr yn chwarterol ar gyfer y Bartneriaeth Tenantiaid – rhent (refeniw ac ôl-ddyledion); rheoli prydlesau ac unedau gwag, diweddariadau ar y stoc dai; gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio; rheoli tenantiaethau a'u cynnal; a chydymffurfiaeth statudol â gwasanaethu nwy.

Rydym yn cynnwys ein budd-ddeiliaid a thenantiaid wrth ddylunio ein gwasanaethau ac yn ceisio adborth yn rheolaidd i wella ein gwasanaethau:

- Rydym yn cyflogi Swyddog Cyfranogiad Deiliaid Contract pwrpasol sy'n hyrwyddo ac yn annog cyfranogiad ar draws ystod o fentrau – Partneriaeth Tenantiaid, Fforymau Tenantiaid, Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr, Grwpiau Gwella Gwasanaeth, arolygon a holiaduron, digwyddiadau tenantiaid blynyddol. Mae mentrau wedi cynnwys hyrwyddo 'Newyddion Tenantiaid' (4,156 o danysgrifwyr ar ddiwedd Mawrth 2024), aelodaeth o E-Cymru (llwyfan dysgu digidol wedi'i anelu at ddarparu mynediad at ystod eang o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer deiliaid contract), cefnogi'r defnydd o'n gwasanaethau digidol ac adolygu'r Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau.
- Rydym yn mynd ati i ystyried ffyrdd o sicrhau bod cynrychiolaeth ar draws demograffeg tenantiaid cwbl amrywiol ac yn ymgynghori ar bob newid arfaethedig i bolisïau sy'n effeithio ar reolaeth cartrefi deiliaid contract, ac yn gweithio ar y cyd â deiliaid contract er mwyn datblygu nifer o fentrau lle mae angen gwelliannau.
- Roedd yr adborth o'n harolwg deiliaid contract (Tachwedd 2023) yn gadarnhaol. O'r deiliaid contract hynny a ymatebodd (889 - 8%), cytunodd 75% o ddeiliaid contract eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth tai ac roedd 72% yn fodlon gydag ansawdd cyffredinol eu cartref. Fodd bynnag, dim ond 41% oedd yn cytuno eu bod yn fodlon gyda'r ffordd yr oedd y Cyngor yn rhoi llais i ddeiliaid contract yn y modd y rheolir gwasanaethau.
- Rydym yn defnyddio cwynion i ganfod gwersi i'w dysgu a gwella arferion. Mae'r adran dai yn un o'r meysydd gwasanaeth sy'n derbyn y mwyafrif o gwynion i'r Cyngor, ac mae hyn i'w ddisgwyl yn sgil natur a maint y gwasanaeth. Er bod nifer y cwynion ffurfiol wedi cynyddu yn y 12 mis diwethaf (0 63 i 88), nid yw'r mwyafrif wedi cael eu cynnal, sy'n dynodi bod y tîm yn dilyn y prosesau cywir ym mwyafrif yr achosion.

**Yn ein hunanasesiad ar gyfer 2022–23, fe wnaethom roi sgôr oren i'r thema hon, oedd yn golygu ein bod wedi dangos perfformiad boddhaol, ond y gallai fod angen buddsoddi a mwy o gapasiti mewn nifer o feysydd allweddol.**

Mae'r isod yn nodi'r meysydd 2023-24 ar gyfer datblygu a gytunwyd yn yr adroddiad 2022-23, y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain a'r penderfyniad i'w dwyn ymlaen ai peidio:

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| **Corfforaethol:** Cymeradwyo Polisi, Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Asedau newydd. | Cytuno ar Strategaeth Rheoli Asedau 2023-28. | Na |
| **Corfforaethol:** Sefydlu Grŵp Gweithredu Rheoli Asedau i gefnogi dull cyson o reoli asedau ar draws adrannau. | Bydd y Grŵp Gweithredu Rheoli Asedau, gan gynnwys cynrychiolwyr o feysydd gwasanaeth eraill yn ailymgynnull nawr bod y Strategaeth Rheoli Asedau wedi'i mabwysiadu gan y Bwrdd Gweithredol. | Ydi |
| **Corfforaethol:** Gweithredu'r Cynllun Rheoli Asedau drwy wneud penderfyniadau effeithlon ac effeithiol ar asedau sydd â chysylltiad amlwg â blaenoriaethau'r Cyngor sydd wedi'u nodi yn y Polisi Rheoli Asedau. | Cytunwyd ar y Strategaeth Rheoli Asedau ac mae cyswllt amlwg â blaenoriaethau'r Cyngor, ac mae'n cynnwys adran ar brosesau ymgynghori a gwneud penderfyniadau. Bydd trefniadau llywodraethu newydd yn sicrhau ein bod yn adolygu ac yn adrodd ar weithrediadau, perfformiad a defnydd o asedau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol. | Na |
| **Corfforaethol:** Sicrhau bod gwybodaeth am asedau'n gyfredol ac yn gyflawn drwy gwblhau'r diweddariad i'r feddalwedd rheoli asedau newydd (Techforge). | Mae Rheoli Ariannol yn defnyddio Tech Forge ac mae'r holl eiddo wedi cael eu mewnbynnu. Bydd gwybodaeth prydlesu yn cael ei diweddaru ar gyfer Medi 2024. | Na |

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| **Cyfrif Refeniw Tai:** Sicrhau bod rheoli asedau'n gywir yn llywio cynllunio busnes a rheolaeth ariannol effeithiol drwy gaffael System Rheoli Tai newydd ac adolygu dull yr arolwg o gyflwr y stoc. | Mae Rheoli Asedau a Chynllunio Busnes yn cael eu cefnogi gan:<br>► Cynllun Rheoli Asedau a gymeradwywyd ym Mai 24<br>► Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai a gymeradwywyd yn Ionawr 24<br>Caffael system rheoli asedau tai newydd wedi'i gwblhau, a bydd yn cael ei weithredu yn 2024/25.<br>Yn dilyn cyllid a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, mae rhaglen o arolygon cyflwr stoc wedi'u cynllunio yn 2024/25. | Na |
| **Cyfrif Refeniw Tai:** Gwella rheolaeth o gontractau. *(DLIB) | Good Cynnydd a wnaed but still areas to develop: Removed as a significant issue in the AGS 2023-24 review. Further development and compliance work embedded. | Na |
| **Cyfrif Refeniw Tai:** Gweithio gyda deiliaid contract i gefnogi gwaith datgarboneiddio. | Cynnydd wedi'i wneud - yn ystod 2023/24, ymwelodd cynrychiolwyr deiliaid contract ganolfan datgarboneiddio er wyn cefnogi dealltwriaeth well o'r technolegau ar gael, ac ymweld ag eiddo lle'r oedd technoleg amgen wedi cael ei osod.<br>Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo fel rhan o SATC2 a bellach yn cael ei ddwyn ymlaen fel rhan o'r thema Cynllun Datgarboneiddio. | Na |
| **Cyfrif Refeniw Tai:** Gwella profiad deiliaid contract (Atgyweirio Tai) a lleihau'r rhestr o waith atgyweirio ymatebol sydd i'w wneud. | 64% o atgyweiriadau wedi'u cyflawni o fewn terfynau amser perthnasol (gwelliant o 60% yn y flwyddyn flaenorol). Cynnydd da wedi'i wneud ond mae canolbwynt ar welliannau pellach.<br>► Cyflwynodd yr adran ffurflen Atgyweiriadau ar-lein i ddarparu proses haws i ddeiliaid contract roi gwybod am waith atgyweirio.<br>► Angen mwy o waith i leihau'r ôl-groniad o atgyweiriadau.<br>Arolwg - dywedodd 63% o ddeiliaid contract eu bod yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn delio ag atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw. | Ydi |

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| **Cyfrif Refeniw Tai:** Sicrhau mwy o gyfranogiad gan ddeiliaid contract. | Mae nifer o weithgareddau wedi gwella'r posibilrwydd ar gyfer cyfranogiad gan ddeiliaid contract.<br><br>Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i wella cyfraddau bodlonrwydd deiliaid contract, o ran y ffordd mae'r Cyngor yn rhoi llais iddynt yn y ffordd y rheolir gwasanaethau (41%); cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau (45%) | Ydi |
| **Cyfrif Refeniw Tai:** Canfod stoc dai i ddiwallu'r galw cynyddol | Wedi llunio'r Prosiect Llety Tai, cylch gwaith i gynyddu stoc, ynghyd â:<br>► Gweithio gyda gofal cymdeithasol i ddod a thai â chymorth i'r sir.<br>► Amryw o fodelau'n cael eu hystyried, e.e. prydlesu, talu'n ôl.<br>► Stoc wedi cynyddu eleni o 24 uned (24 arall wedi'u cynllunio ar gyfer 2024/25). | Ydi |
| **Cyfrif Refeniw Tai:** Sicrhau darpariaeth gwasanaeth o safon drwy gydol cyfnod ariannol anodd. | Mae'r Cyfrif Refeniw Tai a'r adolygiad darpariaeth gwasanaeth yn mynd rhagddo. Mae angen gwneud penderfyniadau heriol ac anodd er mwyn cynnal safonau, o fewn fframwaith ariannol tynn. | Ydi |

## Ein hasesiad 2023-24 - Melyn (wedi gwella)

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd y gallwn ddangos fod perfformiad yn dda a bod mwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.

### Asedau Corfforaethol

#### Cryfderau

**CORFFORAETHOL**

- Cytuno ar Strategaeth Rheoli Asedau newydd sy'n dangos y rheolaethau, adnoddau, prosesau a gweithdrefnau sydd mewn lle i reoli'r ystâd yn effeithiol.
- Sefydlwyd strwythur tîm a rheoli cadarn er mwyn gwella rheolaeth ein hasedau corfforaethol i gefnogi adrannau yn eu hymdrechion i reoli asedau.
- Mae'r Adolygiad Gofod Swyddfa wedi darparu gwelliannau mawr ac wedi sicrhau cynaliadwyedd Adeiladau'r Goron a Stryt y Lampint. Bydd y meysydd newydd yn destun y Rhaglen Newid.
- Mae cynnydd yn cael ei wneud ar ystod o brosiectau asedau, gan gynnwys gwaith cyfalaf ar ysgolion a chynlluniau prosiect mewn lle ar gyfer asedau allweddol, gan gynnwys adfywio'r Hen Lyfrgell.
- Gwaith rheoli cyfleusterau'n parhau i gydymffurfio'n statudol.

**CYFRIF REFENIW TAI:**

- Mae ein gwasanaethau'n gweithredu yn ôl anghenion gwasanaeth ac yn cael eu cefnogi gan gynlluniau busnes, polisïau dyrannu a rheolaeth effeithiol o'r CRT.
- Parhau i fuddsoddi yn y stoc a chyflawni datblygiadau newydd (yn cynnwys adnewyddu'r stoc tai gwarchod) i gynyddu capasiti'r stoc dai.
- Lleihau niferoedd yr eiddo gwag a chynnal safon dda o lety a gwaith allanol yn canolbwyntio ar leihau defnydd o ynni.

#### Meysydd i'w datblygu

**CORFFORAETHOL**

**Wedi'i ddwyn ymlaen**

- Sefydlu Grŵp Gweithredu Rheoli Asedau i gefnogi gweithrediad y Strategaeth Rheoli Asedau a sicrhau dull cyson o reoli asedau ar draws adrannau.

**Newydd**

- Archwilio cyfleoedd newydd i wneud y mwyaf o incwm a chynhyrchu derbyniadau cyfalaf.
- Rhoi gwaith ailstrwythuro'r Tîm Asedau ar waith, gan gynnwyd adnoddau cyfreithiol ychwanegol i ddarparu mwy o gapasiti i reoli a gwaredu asedau.

**CYFRIF REFENIW TAI:**

**Wedi'i ddwyn ymlaen**

- Gwella profiad deiliaid contract (Atgyweirio Tai) a lleihau'r rhestr o waith atgyweirio ymatebol sydd i'w wneud.
- Ehangu cyfraddau cyfranogiad Deiliaid Contract a gwella cyfraddau bodlonrwydd gyda chwestiynau yn ymwneud â chyfranogiad wrth wneud penderfyniadau a chael llais yn y ffordd y rheolir gwasanaethau.
- Canfod stoc dai i ddiwallu'r galw cynyddol.
- Sicrhau darpariaeth gwasanaeth o safon drwy gydol cyfnod ariannol

**Newydd**

- Cytuno ar Bolisi Dyrannu Tai newydd er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r stoc dai.
- Gwneud y mwyaf o incwm i'r Cyfrif Refeniw Tai - gan gynnwys adolygu'r dull ar gyfer

- Mae gwaith cynhwysiant ariannol i helpu deiliaid contract i gael cymaint â phosib' o incwm, a gweithio i gefnogi pobl i gynnal eu tenantiaethau ac atal digartrefedd yn lleihau ôl-ddyledion.
- Gweithio'n effeithiol tuag at sefyllfa lle nad oes angen i neb gysgu ar y stryd.
- Rheoli ein hasedau yn ôl anghenion gwasanaeth – gwasanaeth cwsmeriaid da (yn cynnwys mynediad y tu hwnt i oriau swyddfa) a chyfathrebu'n ddigidol yn rhagweithiol prosesau a pholisi rheoli ôl-ddyledion rhent, a mynd i'r afael â rhent o dan y targed, fel bo'n briodol.
- Sicrhau cydymffurfiad ag agweddau gweddillol y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru).
- Cytuno ar Strategaeth Dai Lleol (wedi'i lywio gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol).

# Thema: Caffael

Caffael effeithiol sy'n seiliedig ar gomisiynu, sy'n gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl leol. Mae'r broses gaffael yn gynaliadwy o ran diwallu anghenion pobl leol mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ac yn creu buddion i bobl leol, yr economi leol a'r sefydliad wrth leihau difrod i'r amgylchedd.[1]

Mae arfarniadau o opsiynau a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddadansoddi a chyngor ac mae tystiolaeth o resymu a phenderfyniadau clir:

- Mae'r tîm caffael yn dilyn cylch comisiynu llawn, yn unol â'r Strategaeth Comisiynu a Chaffael gyfredol a'r Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau. Mae safonau arfer da a chyngor ar gael i wasanaethau ac rydym ni gweithio'n agos gyda Phrif Swyddogion a rheolwyr i gefnogi caffael llwyddiannus.
- Mae Pennaeth Cyllid a TGCh yn arwain ar holl benderfyniadau gan sicrhau fod rhesymeg glir wedi cael ei gofnodi, a lle bynnag bosibl, mae'r wybodaeth yn cael ei wneud yn gyhoeddus.
- Mae paratoadau wedi parhau tuag at gyflwyno Diwygiadau Caffael (gan gynnwys gweithred nifer o brosesau/gweithdrefnau newydd) a fydd angen tryloywder cynyddol ar gaffael dros £25,000, gan gynnwys cymeradwyaeth i gyhoeddi dogfen Cyngor gyfan. Mae tystiolaeth yn awgrymu ein bod yn parhau i fod yn un o'r unedau caffael awdurdod lleol sydd wedi paratoi fwyaf yng Nghymru ar gyfer y diwygiadau.
- Mae gan bob prosiect caffael gofrestr risg gyfatebol, ac mae risgiau priodol yn cael eu cynnwys yng nghofrestrau risg adrannau.
- Mae cofrestrau risg mewn lle ar gyfer contractau y mae'r tîm caffael yn eu rheoli e.e. Hamdden a Gwastraff Menter Cyllid Preifat.
- Defnyddir matrics risg ar gyfer gweithgareddau caffael, yn seiliedig ar safbwynt y caffael gwirioneddol.
- Mae tryloywder yn un o Egwyddorion Caffael a fabwysiadwyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac mae'n nodwedd allweddol o holl weithgarwch caffael. Mae polisi a phroses ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau wedi cael ei weithredu a'i gyflwyno ar draws y Bwrdd Uchelgais Economaidd, Byrddau Rhaglen, Byrddau Prosiect a'r Bwrdd Cyflawni Busnes.
- Mar tryloywder yn thema allweddol o dan y ddeddfwriaeth caffael diwygiedig ac wedi'i fabwysiadu'n gynnar gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae gennym dîm profiadol, canolog sy'n annog gwaith partneriaeth:

- Mae ein Tîm Caffael wedi ennill Gwobr Tîm Caffael y Flwyddyn yng Ngwobrau Go Cymru yn 2023. Mae'r wobr hwn yn canolbwyntio ar sut mae gweithio fel Tîm yn hanfodol i lwyddiant caffael cyhoeddus, a'r pŵer a photensial o ddull unedig, gyda ffocws, gan gydnabod

arweinyddiaeth, cyfathrebu, arloesedd, cydweithio, datblygiad personol, ac roedd hyn yn amlwg trwy ganlyniadau nodedig a thystiolaeth o lwyddiant.

- Mae'r tîm caffael yn uned ganolog, sy'n gallu cynnal trosolwg o gomisiynu a chaffael ar draws yr awdurdod a chanfod cyfleoedd i wneud y mwyaf o gyllidebau ac arbenigedd.  Mae'r wybodaeth ac arbenigedd yna'n cael ei rannu gydag adrannau, wrth i ni eu cefnogi gyda'u gweithgareddau caffael.
- Rydym yn gweithio gydag adrannau i gynllunio eu gofynion caffael er mwyn helpu i sicrhau bod gennym y capasiti i'w cefnogi yn ôl yr angen, gan gynnwys cynnig her a gwybodaeth arbenigol, a chanfod cyfleoedd ar gyfer cydweithio mewn caffael.  Mae rheolwyr categori yn gweithio gydag adrannau ar brosiectau caffael. Mae cynlluniau mewn lle i gyflwyno matrics risg er mwyn rheoli adnoddau gweithlu'r tîm caffael i sicrhau y gellir cefnogi ceisiadau caffael. Bydd y dull 18 mis ymlaen llaw a gaiff ei gyflwyno o dan y diwygiadau yn helpu i ganfod risgiau posibl a gofynion o ran adnoddau ar gam cynnar yn y broses gaffael.
- Mae'r tîm caffael yn gweithio'n agos gyda'r prif swyddogion a phenaethiaid gwasanaeth er mwyn eu cynghori am y strategaeth gaffael ac esblygiad y dull i ddiwygiadau caffael.
- Mae gennym raglen hyfforddi gadarn parhaus. Mae'r tîm caffael wedi darparu dros 20 o weithdai hyfforddi ar draws y Cyngor, gyda 15 ychwanegol wedi'u cynllunio ar gyfer Hydref 2024.  Gan weithio gyda'r tîm addysg ac ymyrraeth gynnar, bydd yr hyfforddiant caffael yn cael ei ddarparu i ysgolion. Mae angen parhaus i uwchsgilio staff er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth barhaus o weithdrefnau caffael.
- Mae gan ein tîm berthnasoedd rhwydweithio rhanbarthol a chenedlaethol effeithiol sy'n cefnogi dealltwriaeth dda o farchnadoedd.
- Rydym yn adeiladu dull partneriaeth ar draws Gogledd Cymru, gan arwain y corff caffael ar brosiectau ar gyfer partneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn cynnwys y cyhoedd a'n budd-ddeiliaid wrth wneud penderfyniadau a chael adborth, a chaiff hyn ei atgyfnerthu fel rhan o'r Diwygiadau Caffael.  Mae'r Tîm Caffael ac adrannau yn cynnal ymarferion ymgysylltu'r farchnad fel rhan o'r broses gaffael. Gwahoddir holl gyflenwyr posibl i'r rhain. Mae gwaith pellach yn parhau er mwyn sicrhau bod gennym fanylion yr holl gyflenwyr perthnasol i rannu manylion tendr â nhw. Mae'r diwygiadau caffael newydd yn gofyn i'r awdurdod gyhoeddi ei linell amser - mae'r Tîm Caffael yn gweithio ar ffyrdd y gellir cyfathrebu hyn i'r farchnad ymhellach.
- Mae ein Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau gyfredol yn cynnwys ymrwymiad i ystyried cydraddoldeb yn ein penderfyniadau comisiynu a chaffael ac mae hyn wedi'i gynnwys yn ein dogfennau tendro a'n contractau.

Rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod Gwerth am Arian yn cael ei ystyried fel y cyfuniad optimwm o'r costau gydol oes, o ran cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da ar gyfer y Cyngor, yn ogystal ag elwa cymdeithas a'r economi, wrth leihau niwed i'r amgylchedd:

- Mae'r Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau yn canolbwyntio ar sicrhau bod holl drefniadau dan gontract yn ystyried y gofyniad i ystyried sut all y Cyngor wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal leol, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ôl gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chaiff ei gefnogi gan Flaenoriaethau'r Cyngor, Cynllun y Cyngor a Dyletswyddau Cydraddoldeb.
- Mae ein Strategaeth Comisiynu, Caffael A Rheoli Contractau yn nodi gwerth cymdeithasol fel blaenoriaeth allweddol, ac yn diffinio'n glir bod hyn yn Wrecsam yn golygu cyfrannu at ddatgarboneiddio a darparu budd cymunedol diffiniedig. (Budd cymunedol yw darparu rhywbeth mewn nwyddau ar gyfer y gymuned, taliad ariannol tuag at angen cymunedol, neu gynhyrchion a gwasanaethau i helpu cymuned benodol yn y Fwrdeistref Sirol.)
- Mae pecyn gwaith gwerth cymdeithasol yn cael ei ddatblygu er mwyn ei ddefnyddio wrth dendro.

**Yn ein hunanasesiad 2022–23, fe wnaethom roi sgôr felen i'r thema hon, oedd yn golygu ein bod yn dangos perfformiad da a bod gennym fwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.**

Mae'r isod yn nodi'r meysydd 2023-24 ar gyfer datblygu a gytunwyd yn yr adroddiad 2022-23, y cynnydd a wnaed yn erbyn y rhain a'r penderfyniad i'w dwyn ymlaen ai peidio:

| MAES DATBLYGU 2023-24 | CYNNYDD A WNAED | DWYN YMLAEN? |
|---|---|---|
| Gwella rheolaeth o gontractau ar lefelau corfforaethol a gweithredol. | Drwy waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol, amlygwyd bod rheoli'r drefn o gomisiynu lleoliadau digontract ym maes gofal cymdeithasol i blant yn un o'r meysydd cyffredinol i'w hystyried yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24. Mae'r gwaith hwn yn bwysig oherwydd y disgwyliadau uchel a'r cynnydd yn y galw a'r costau yn y meysydd hynny, ac mae'n gyson â'r sicrwydd a gafwyd gan y grwpiau tasg a gorffen ar reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn.<br><br>Yn gyffredinol, mae perfformiad wedi gwella ychydig o fewn yr adran yn dilyn cefnogaeth a ddarparwyd gan y tîm caffael; fodd bynnag mae meysydd penodol wedi'u nodi yn y Cyngor lle mae angen gwelliannau. | Ydi |
| Rheoli contractau (Fframwaith Llywodraethu Iechyd a Diogelwch) (*DLIB) | Mae gwelliant nodedig yn y maes hwn.<br>• Gwelliant mewn gweithdrefnau, cydymffurfiaeth a hyfforddiant.<br>• Darparodd archwiliad mewnol lefel sicrwydd gwell (Melyn) yn 2023-24 ac mae hyn wedi cael ei dynnu o fod yn broblem arwyddocaol yn y DLIB ar gyfer 2024-25.<br>• Gwneir mwy o waith ar gydymffurfiaeth fel rhan o gynllun Archwilio Mewnol 2024-25 er mwyn sicrhau y caiff yr arferion eu gwreiddio. | Na |
| Parhau i baratoi at weithredu'r Diwygiadau Caffael. | Mae tystiolaeth yn awgrymu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i fod yn un o'r unedau caffael sydd wedi paratoi fwyaf yng Nghymru ar gyfer y diwygiadau.<br>• Bydd Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Rheolau'r Weithdrefn Gontractau) yn cael eu hadolygu yn dilyn cyflwyno'r Diwygiadau Caffael Cenedlaethol a ddisgwylir yn Hydref 2024. | Ydi |
| Adolygu strwythurau rheoli contractau. | Mae prosesau'r uned gaffael yn cynnwys diweddaru strwythurau'n barhaus wrth i ofynion newid ac addasu. | Na |

## Ein hasesiad 2023-24 - Melyn (wedi'i gynnal)

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd y gallwn ddangos fod perfformiad yn dda a bod mwy o gryfderau na meysydd i'w datblygu.

### Cryfderau

- Mae ein Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli yn sicrhau bod Gwerth am Arian yn cael ei ystyried fel y cyfuniad optimwm o'r costau gydol oes, o ran cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da ar gyfer y Cyngor, yn ogystal ag elwa cymdeithas a'r economi, wrth leihau niwed i'r amgylchedd.
- Gweithdrefnau a phrosesau comisiynu, caffael a rheoli cadarn mewn lle.
- Rydym yn cymryd dull rhagweithiol i gefnogi rheolaeth prosiectau allweddol y Cyngor mewn perthynas â Gwerth am Arian a lliniaru risgiau.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru ar weithrediad a datblygiad y ddeddfwriaeth caffael newydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.
- Rydym mewn safle da i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth newydd o fewn y terfynau amser gofynnol ac wedi cael ein cydnabod yn genedlaethol am ein gwaith.
- Darpariaeth o raglen hyfforddiant caffael effeithiol.

### Meysydd i'w datblygu

**Wedi'i ddwyn ymlaen**

- Gwella rheolaeth o gontractau ar lefelau corfforaethol a gweithredol.
- Parhau i baratoi ar gyfer gweithrediad y Diwygiadau Caffael, gan gynnwys adolygiad o Reolau'r Weithdrefn Ariannol.

**Newydd**

- Parhau i ddatblygu gwybodaeth o ofynion cydymffurfio caffael ar gyfer prosesau a gweithdrefnau ar draws y Cyngor trwy ddigwyddiadau hyfforddiant wedi'u targedu.

# ATODIAD 1:

## Ffynonellau allweddol o dystiolaeth

Roedd yr adolygiad i lywio'r adroddiad yn ystyried sylfaen dystiolaeth eang, wedi'i harwain gan 'Canllawiau Statudol: Perfformiad a Llywodraethu Awdurdodau Lleol' Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Adroddiadau a gynhyrchwyd gan y Cyngor mewn ymateb i ofynion statudol;
- Tystiolaeth, adroddiadau a chyngor gan amrywiaeth o gyrff arolygu a rheoleiddio;
- Adolygu strategaethau, polisïau a gweithdrefnau amrywiol y Cyngor;
- Adroddiadau i wahanol bwyllgorau'r Cyngor, gan gynnwys y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Adroddiadau archwilio mewnol a hunanwerthusiadau a gynhaliwyd gan y Cyngor a gwasanaethau unigol;
- Canmoliaeth, cwynion ac adborth arall o brosesau ymgysylltu â phobl leol a budd-ddeiliaid; ac
- Arolygon gweithlu ac allbynnau o brosesau ymgysylltu eraill gyda'r gweithlu a'r Undebau Llafur cydnabyddedig.

**Mae rhai o'r dogfennau cyhoeddedig allweddol a adolygwyd gennym, gyda dolenni gwe, wedi'u nodi isod:**

Cyfansoddiad Cyngor Wrecsam

Cynllun y Cyngor (2023–28) ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllun y Cyngor (2023–24)

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (2023/24)

Monitro'r Gyllideb – Chwefror (2024)

Rhaglen Newid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (2024)

Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2022/23)

Archwilio Cymru - Dulliau i Gyflawni Sero Net ar Draws y DU (2023)

Archwilio Cymru - Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru (2023)

Archwilio Cymru - Adolygiad Strategaeth Ddigidol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (2022/23)

Archwilio Cymru - Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu gyda Chanolbwynt Penodol ar y Gwasanaeth Cynllunio - (2023/24)

Archwilio Cymru - Adolygiad o Adfywiad Tir Llwyd ac Adeiladau Gwag (2024)

Archwilio Cymru - Gosod Amcanion Lles (2023/24)

Archwilio Cymru - Adolygiad Llamu Ymlaen: Gwersi a Ddysgwyd o'n Gwaith ar y Gweithlu ac Asedau (2023)

Archwilio Cymru - Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad - Safbwynt Defnyddwyr a Chanlyniadau (2023/24)

Archwilio Cymru - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Diweddariad Cynnydd Datgarboneiddio (2023)

Ymweliad Monitro Estyn (Gorffennaf 2023)

Arolygiaeth Gofal Cymru - Ymweliad Gwirio Gwelliannau i Wasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam(2023)

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2022/23)

Strategaeth Rheoli Asedau (2023/28)

Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau (2023-25)

Adroddiad Blynyddol Cynllun Datgarboneiddio (2023/24)

Cynllun Busnes a Gosod Cyllideb a Rhenti'r Cyfrif Refeniw Tai 2024/25)

Strategaeth TGCh a Digidol (2024-27)

Strategaeth Pobl (2024 -2028)

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (2022/23)

Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg (2022/23)

Adroddiad Gwybodaeth Monitro'r Gweithlu (2023/24)

# ATODIAD 2:

# Rhestr Termau

### Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) yw disgrifio'r graddau y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu. Mae'n disgrifio sut mae effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu wedi eu monitro a'u gwerthuso yn ystod y flwyddyn ac yn nodi meysydd i'w gwella yn y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'n ofynnol cyhoeddi'r DLIB fel rhan o'n Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

### Prisio Asedau – manylion ychwanegol

Asedau Cronfa'r Cyngor – Mae asedau sydd wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar eu gwerth presennol yn cael eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn, ond fel isafswm bob pum mlynedd.

Mae asedau yn cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Asedau isadeiledd – cost hanesyddol ddibrisiedig
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Swyddfeydd y cyngor - gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol - EUV), ac eithrio ar gyfer ychydig o swyddfeydd sy'n cael eu lleoli yn agos i eiddo tai'r cyngor, lle nad oes marchnad ar gyfer swyddfeydd, ac sy'n cael eu mesur ar gost adnewyddu ddibrisiedig (adeilad amrantiad) fel amcangyfrif o'r gwerth cyfredol.
- Adeiladau ysgolion – gwerth presennol, oherwydd eu natur arbenigol, wedi'i fesur ar gost amnewid ddibrisiedig sy'n cael ei defnyddio fel amcangyfrif o werth presennol.
- Asedau dros ben - y sylfaen mesur gwerth cyfredol yw gwerth teg, a amcangyfrifir yn y defnydd uchaf a gorau o safbwynt cyfranogwr y farchnad.
- Pob ased arall – gwerth presennol, a bennir fel y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).
- Gwerth Anheddau'r Cyngor: Caiff anheddau'r Cyngor eu cario yn y Fantolen yn seiliedig ar werth presennol, wedi ei bennu gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH).

### Archwilio Cymru

Archwilio Cymru yw'r nod masnach ar gyfer dau endid cyfreithiol: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gan y naill a'r llall ei bwerau a'i ddyletswyddau penodol ei hun:

- Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio ac yn adrodd am gyrff cyhoeddus Cymru.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, ac yn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

### Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE)

Mae Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth: yn gorff rhyngwladol wedi ei leoli yn y DU ar gyfer cyfrifwyr er mwyn gosod safonau.

Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol: yw'r prif rwydwaith aelodau ar gyfer gweithwyr proffesiynol llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus yn y DU.

### Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

### Rhaglen Newid

Rhaglen fewnol o newid sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaeth a sefydlogrwydd ariannol dros y ddwy flynedd nesaf (2025/26 a 2026/27). Mae'n sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni anghenion pobl leol trwy ddarparu gwasanaethau modern ac effeithlon.

### Strategaeth Gomisiynu a Chaffael

Trefniadau'r Cyngor ynglŷn â'r ffordd y mae'n ymgymryd â gweithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contractau.

### Cyfansoddiad

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a'r gweithdrefnau y mae'n eu dilyn i sicrhau ei fod yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae iddo 22 o adrannau, sy'n cynnwys adrannau ynglŷn â'r rheolau, protocolau a chodau ymarfer mae Cynghorwyr a gweithwyr yn ei dilyn wrth wneud eu gwaith.

### Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol

Mae strategaeth y Cyngor yn nodi pwysigrwydd ac arwyddocâd portffolio eiddo'r Cyngor yn y gweithgareddau y mae'n eu gwneud, ac yn ceisio herio a chyfiawnhau pam y cedwir asedau, gan edrych ar ddewisiadau amgen ar gyfer defnyddio asedau a darparu gwasanaethau o fewn ein fframwaith cyllidebol cyfyng.

### Y Cyngor

Pob un o'r 56 Aelod Etholedig. Mae'n cymeradwyo Cynllun y Cyngor ac yn cytuno ar y Cyfansoddiad, fframwaith polisi a fframwaith ariannol.

### Cynllun y Cyngor

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol, y cytunwyd arni gan y Cyngor, sy'n cyhoeddi'r amcanion lles a chydraddoldeb.

### Pwyllgor Safonau'r Cyngor

Un o bwyllgorau'r Cyngor sy'n hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad gan aelodau etholedig a chyfetholedig, ac yn monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau.

### Data Cymru

Cwmni llywodraeth leol Cymru sy'n cynnig cefnogaeth arbenigol i lywodraeth leol i ddod o hyd i ddata a'i ddefnyddio'n effeithiol.

### Protocol Aelodau Etholedig

Mae'r Protocol yn hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer fel modd o gryfhau parch ac ymddiriedaeth ymhlith aelodau. Mae wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad.

### Estyn

Estyn yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

### Y Bwrdd Gweithredol

Penodir y Bwrdd Gweithredol i ymgymryd â holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb i unrhyw ran arall o'r Cyngor, naill ai yn ôl y Gyfraith neu dan y Cyfansoddiad. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys Arweinydd y Cyngor a naw Cynghorydd arall sydd wedi eu penodi i'r Bwrdd Gweithredol gan y Cyngor.

## Llywodraethu/Fframwaith Llywodraethu

Mae llywodraethu yn cyfeirio at y prosesau sy'n cael eu defnyddio i gyfarwyddo, rheoli, ac arwain sefydliadau fel y Cyngor a'u dwyn i gyfrif. Mae ein fframwaith llywodraethu wedi ei nodi yn ein Cod Llywodraethu, sy'n nodi ein hymrwymiad i lywodraethu'n dda ac i'r fframwaith o reolyddion a threfniadau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn llywodraethu'n dda.

## Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

Mae'r CRT yn cofnodi gwariant ac incwm mewn perthynas â stoc dai'r Cyngor.

## Archwilio Mewnol

Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd annibynnol sy'n ymgymryd â gwaith a fydd yn llywio barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch digonolrwydd cyffredinol fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan gynnwys ei holl weithrediadau, adnoddau a gwasanaethau a'i gyfrifoldebau yng nghyswllt chyrff eraill.

## Strategaeth Gyfranogi

Mae Strategaeth Gyfranogi'r Cyngor yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gynnwys pawb yn ein cymunedau mewn trafodaethau ynglŷn â'r gwasanaethau rydym yn eu dylunio a'u darparu, a'r egwyddorion y byddwn yn eu dilyn i sicrhau hyn.

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer etholiadau, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad llywodraeth leol.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ganllaw strategol i gynlluniau gwario'r Cyngor dros y 3 blynedd nesaf i hybu blaenoriaethau'r Cyngor yng nghyd-destun cyllideb flynyddol gytbwys. Mae'n darogan sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol yn seiliedig ar nifer o dybiaethau, gan nodi cyllidebau refeniw a chyfalaf dangosol a rhagamcanu lefel debygol Treth y Cyngor a balansau'r Cyngor.

## Y Strategaeth Datblygu Aelodau

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi nifer o ofynion yn ymwneud â hyfforddi a datblygu Aelodau. Mae'r Strategaeth Datblygu Aelodau yn nodi'r gweithgareddau datblygu a hyfforddi sydd wedi eu dylunio'n benodol i wella gwybodaeth, sgiliau a gallu aelodau etholedig yn eu rolau amrywiol.

### Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy

Mae Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn bartneriaeth sy'n cefnogi twf economaidd strategol ledled gogledd-ddwyrain Cymru, gorllewin Swydd Gaer a Chilgwri, a gydnabyddir fel un isranbarth economaidd gyda phoblogaeth yn agos at 1 miliwn.

### Rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio

Rhaglen i drawsnewid ein harferion gweithio trwy ddarparu gwell amgylcheddau gwaith, mabwysiadu datrysiadau digidol a thechnoleg newydd, gwneud ein gwaith yn fwy cynaliadwy yn hirdymor a herio'r diwylliant ynghlwm â'r ffordd mae'r Cyngor yn gweithio.

### Egwyddorion Nolan

Egwyddorion Nolan yw saith egwyddor bywyd cyhoeddus ac mae'n berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio fel swyddog cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys pawb sy'n cael eu hethol neu eu penodi i swydd gyhoeddus, yn genedlaethol ac yn lleol, a phawb sy'n cael eu penodi i weithio yn y Gwasanaeth Sifil, llywodraeth leol, yr heddlu, llysoedd a gwasanaethau prawf, cyrff cyhoeddus anadrannol ac mewn gwasanaethau iechyd, addysg, cymdeithasol a gofal. Mae'r saith egwyddor yn cynnwys; Anhunanoldeb, Uniondeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn Agored, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth.

### Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Mae BUEGC yn bartneriaeth rhwng y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a phartneriaid eraill yn y rhanbarth. Dyma'r grŵp nawdd a'r corff gwneud penderfyniadau ar gyfer Bargen Dwf Gogledd Cymru, wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ogystal â phartneriaid preifat a chyhoeddus eraill, gyda'r nod o greu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn ar gyfer Gogledd Cymru.

### Adolygiad Gofod Swyddfa

Rhaglen waith i adolygu ein gofynion gofod swyddfa, sicrhau bod ein hasedau yn ateb y gofyn a darparu gofod swyddfa modern a hyblyg sy'n bodloni gofynion sefydliad modern.

### Fframwaith Rheoli Perfformiad

Mae fframwaith rheoli perfformiad yn sicrhau bod unigolion, timau a'r sefydliad yn gyffredinol yn gwybod yr hyn y dylent ei wneud, pryd y dylent ei wneud, a sut y dylent ei wneud. Mae'n rhan o'r cylch parhaus 'Cynllunio, Gwneud, Adolygu', sy'n golygu hunanasesu, cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad yn gadarn. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion, ein blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau partneriaeth fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor.

### Adolygu a Datblygu Perfformiad

Trefniadau'r Cyngor i adolygu perfformiad y gweithlu, arfarnu perfformiad y gweithwyr dros y flwyddyn flaenorol, gosod amcanion, nodi anghenion hyfforddiant a datblygu, a darparu adborth adeiladol er mwyn gallu perfformio'n dda.

### Byrddau Blaenoriaethau

Caiff pob un o flaenoriaethau'r Cyngor eu cefnogi gan Fwrdd Blaenoriaeth sy'n gyfrifol am gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y Cynllun, ac adrodd am y rhain i aelodau etholedig a'r cyhoedd.

### Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac maent yn cynnwys nifer o aelodau statudol (gan gynnwys awdurdodau lleol) i wella cydweithio ymhlith yr holl wasanaethau cyhoeddus yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru.

### Prynu i Dalu

Proses e-gaffael y Cyngor.

### Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Mae'n ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i awdurdodau cyhoeddus ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda ag 8 'nodwedd warchodedig', a rhyngddynt. Mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol yn paratoi a chyhoeddi eu hamcanion cydraddoldeb strategol bob 4 blynedd, o leiaf. Mae ein hamcanion cydraddoldeb strategol wedi eu cyhoeddi yn rhan o Gynllun y Cyngor.

### Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yr egwyddor datblygu cynaliadwy: pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. Mae'n nodi 'pum ffordd o weithio' i gynnal y dull gweithredu yma – hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal.

### Nodau Lles Cymru

Saith nod lles cyd-ddibynnol ar gyfer Cymru, wedi eu sefydlu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Amcanion Lles/Blaenoriaethau'r Cyngor

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gytuno a chyhoeddi eu hamcanion lles eu hunain, sy'n cyfrannu tuag at nodau lles Cymru. Yng Nghyngor Wrecsam, mae'r rhain wedi eu cyhoeddi yng Nghynllun y Cyngor, ac maent hefyd yn gweithredu fel Blaenoriaethau'r Cyngor.

## Safon Ansawdd Tai Cymru 1 (SATC 1)

Safon Ansawdd Tai Cymru yw safon Llywodraeth Cymru ar gyfer ansawdd tai cymdeithasol, a gyflwynwyd gyntaf yn 2002.

## Safon Ansawdd Tai Cymru 2 (SATC 2)

Set newydd o safonau yw Safon Ansawdd Tai Cymru 2, sydd i gychwyn yn 2023. Mae'r Safon yn nodi'r safonau ar gyfer yr hyn a ddylai fod yn wir ym mhob cartref – ag enwi llond llaw: cyflwr da, diogelwch, wedi'i inswleiddio'n iawn ac wedi'i reoli'n dda.

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Mae CLlLC yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru. Ei phrif ddibenion yw hyrwyddo llywodraeth leol well, hyrwyddo ei enw da a chefnogi awdurdodau wrth iddynt ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

# Nodiadau

[1] Datganiad llywodraethu da – wedi'i ategu gan egwyddor 'Delivering Good Governance in Local Government' CIPFA/SOLACE.